



Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011

2011 mccc 1

Nodiadau Esboniadol

Welsh Language (Wales) Measure 2011

2011 nawm 1

Explanatory Notes

£16.00



Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011

2011 mccc 1

Nodiadau Esboniadol

Welsh Language (Wales) Measure 2011

2011 nawm 1

Explanatory Notes

MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2010 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi ar 9 Chwefror 2011. Fe'u lluniwyd gan Adran Treftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur ond nid ydynt yn rhan ohono.
2. Bwriedir i'r Mesur foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993") ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
3. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaeth o ran statws swyddogol y Gymraeg ac yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") a fydd yn disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg ("y Bwrdd") a sefydlwyd o dan Ddeddf 1993.
4. Prif nod y Comisiynydd fydd hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a bydd ef neu hi yn gallu gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd gan y Comisiynydd hefyd y pŵer i ymchwilio i honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd mewn sefyllfaoedd penodol. Bydd Panel Cynghori yn cefnogi'r Comisiynydd.
5. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynglŷn â datblygu safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg ("safonau") a fydd yn disodli'r system bresennol o gynlluniau iaith ("cynlluniau") y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 1993.
6. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud darpariaeth o ran gorfodi dyletswyddau sydd ynghlwm wrth safonau, gan gynnwys bod personau sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau, ac unigolion yr effeithir arnynt gan fethiannau i gydymffurfio â safonau, yn gallu apelio yn erbyn rhai o benderfyniadau'r Comisiynydd. Mae darpariaeth hefyd sy'n caniatáu i bersonau o dan ddyletswydd herio gorfodi'r dyletswyddau hynny fel ag y maent yn gymwys iddynt hwy. Bydd hyn yn cynnwys creu Tribiwnlys y Gymraeg ("y Tribiwnlys").
7. Yn olaf, mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynghylch sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ("y Cyngor Partneriaeth") i roi cyngor neu i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru am eu strategaeth iaith Gymraeg.

WELSH LANGUAGE (WALES) MEASURE 2011

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (“the Measure”) which was passed by the National Assembly for Wales on 7 December 2010 and approved by Her Majesty in Council on 9 February 2011. They have been prepared by the Department for Heritage of the Welsh Assembly Government to assist the reader of the proposed Measure. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but are not part of it.
2. The Measure is intended to modernise the existing legal framework largely governed by the Welsh Language Act 1993 (“the 1993 Act”) regarding the use of the Welsh language in the delivery of public services.
3. The Measure includes provision with regard to the official status of the Welsh language and establishes the office of Welsh Language Commissioner (“the Commissioner”) which will replace the Welsh Language Board (“the Board”) established under the 1993 Act.
4. The Commissioner’s principal aim will be to promote and facilitate the use of the Welsh language and he or she will be able to work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language. The Commissioner will also have the power to investigate alleged interferences with individuals’ freedom to use Welsh with one another in certain circumstances. The Commissioner will be supported by an Advisory Panel.
5. The Measure makes provision with regard to the development of standards of conduct relating to the Welsh language (“standards”) which will replace the existing system of Welsh language schemes (“schemes”) provided for by the 1993 Act.
6. The Measure also makes provision about the enforcement of duties contained in standards, including the ability of persons under duty to comply with standards, and individuals affected by failures to comply with standards, to appeal some of the Commissioner’s decisions. There is also provision which allows persons under duty to challenge the imposition of those duties as they apply to them. This will include the creation of a Welsh Language Tribunal (“the Tribunal”).
7. Finally, the Measure makes provision with regard to the establishment of a Welsh Language Partnership Council (“the Partnership Council”) to give advice or make representations to the Welsh Ministers about their Welsh language strategy.

SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 - Statws swyddogol y Gymraeg

8. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.
9. Mae is-adran (1) yn datgan bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.
10. Mae is-adran (2) yn darparu bod effaith gyfreithiol yn cael ei rhoi, heb ragfarnu'r egwyddor gyffredinol yn is-adran (1), i statws swyddogol y Gymraeg gan y deddfiadau ynghylch dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg; ynghylch peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ynghylch dilyswydd defnyddio'r Gymraeg; ynghylch hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg; ynghylch rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd; ynghylch creu swydd Comisiynydd y Gymraeg ac ynghylch materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
11. Mae is-adran (3) yn cyfeirio at enghreifftiau o ddeddfiadau sy'n rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg.
12. Mae is-adran (4) yn datgan nad yw'r Mesur yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.

Adran 2 - Comisiynydd y Gymraeg

13. Mae'r adran hon yn sefydlu swydd Comisiynydd ac yn rhoi ei heffaith i Atodlen 1 sy'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynglŷn â'r Comisiynydd. Mae'r Comisiynydd yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru.

Adran 3 - Prif nod y Comisiynydd

14. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch prif nod y Comisiynydd wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Y nod hwnnw yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth ynghylch y camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd wrth arfer swyddogaethau yn unol â'r prif nod, ac mae is-adran (3) yn rhestru'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw iddyn nhw pan fydd yn arfer swyddogaethau'n unol â'r prif nod.

Adran 4 - Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

15. Mae'r adran hon yn amlinellu swyddogaethau cyffredinol y Comisiynydd. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'n meddwl ei fod yn briodol i hybu defnyddio'r Gymraeg, i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac i weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Adran 5 - Cynhyrchu adroddiadau 5-mlynedd

16. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gynhyrchu adroddiad ynghylch sefyllfa'r Gymraeg. Rhaid cynhyrchu adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd, fel y mae'n cael ei ddiffinio yn is-adran (5). Rhaid i'r adroddiad cyntaf sy'n cael ei gyhoeddi ar ôl pob cyfrifiad gynnwys dadansoddiad o ganlyniadau'r cyfrifiad o ran y Gymraeg.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – Official status of the Welsh Language

8. This section makes provision about the official status of the Welsh language in Wales.
9. Subsection (1) states that the Welsh language has official status in Wales.
10. Subsection (2) provides that, without prejudice to the general principle of subsection (1), legal effect is given to the official status of the Welsh language by the enactments about: duties on bodies to use the Welsh language; the treatment of the Welsh language no less favourably than the English language; the validity of the use of the Welsh language; the promotion and facilitation of the use of the Welsh language; the freedom of persons wishing to use the Welsh language to do so with one another; the creation of the Welsh Language Commissioner and other matters relating to the Welsh language.
11. Subsection (3) refers to examples of the enactments which give legal effect to the official status of the Welsh language.
12. Subsection (4) states that the Measure does not affect the status of the English language in Wales.

Section 2 – The Welsh Language Commissioner

13. This section establishes the office of the Commissioner and gives effect to Schedule 1 which makes further provision about the Commissioner. The Commissioner is appointed by the First Minister.

Section 3 – The Commissioner’s principal aim

14. This section makes provision about the Commissioner’s principal aim in exercising his or her functions. That aim is to promote and facilitate the use of the Welsh language. Subsection (2) makes provision about the actions which the Commissioner must undertake in exercising functions in accordance with the principal aim, and subsection (3) lists the principles to which the Commissioner must have regard when exercising functions in accordance with the principal aim.

Section 4 – Promoting and facilitating the use of Welsh and treating Welsh no less favourably than English

15. This section outlines the Commissioner’s general functions. Subsection (1) provides that the Commissioner may do anything that he or she thinks appropriate to promote the use of the Welsh language, facilitate the use of the Welsh language and work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language.

Section 5 – Production of 5-year reports

16. This section places a duty upon the Commissioner to produce a report on the position of the Welsh language. A report must be produced in relation to each reporting period as defined in subsection (5). The first report published after each census is to include an analysis of the results of the census in relation to the Welsh language.

Adran 6 - Adroddiadau 5-mllynedd: atodol

17. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiadau 5-mllynedd.

Adran 7 - Ymholiadau

18. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i gynnal ymholiadau i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'i swyddogaethau. Mae'r pŵer ymholi cyffredinol hwn yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) i (5). Mae is-adran (9) yn rhoi ei heffaith i Atodlen 2 sy'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch ymholiadau.

Adran 8 - Adolygiad barnwrol ac achosion cyfreithiol eraill

19. Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiynydd i gychwyn achos cyfreithiol neu i ymyrryd mewn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr achos yn berthnasol i fater y mae ganddo swyddogaeth mewn perthynas ag e.
20. Yn ychwanegol at ddarparu bod pŵer y Comisiynydd i gychwyn achos cyfreithiol neu i ymyrryd mewn achos cyfreithiol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd wedi'u gosod gan ddeddfwriaeth neu gan reolau'r llys, mae is-adran (2) yn egluro nad yw is-adran (1), ohoni ei hun, yn creu sail i achos.

Adran 9 - Cymorth cyfreithiol

21. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ddarparu cymorth i unigolyn os yw'r person hwnnw'n barti neu os gallai ddod yn barti i achos cyfreithiol cyfredol neu bosibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn perthynas ag e. Mae "cymorth", at ddibenion yr adran hon, yn cynnwys cyngor cyfreithiol, cynrychiolaeth gyfreithiol a chyfleusterau i ddatrys anghydfod, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain.

Adran 10 - Cymorth cyfreithiol: costau

22. Mewn amgylchiadau lle mae'r Comisiynydd wedi helpu unigolyn o dan adran 9 mewn perthynas ag achos cyfreithiol, a phan gaiff yr unigolyn hwnnw hawl i gael rhywfaint neu'r cyfan o'i gostau yn yr achos, mae'r adran hon yn sicrhau bod treuliau'r Comisiynydd wrth roi'r cymorth yn cael eu codi ar symiau sy'n cael eu talu i'r unigolyn ar ffurf costau. Gall y symiau hyn gael eu gorfodi fel dyled sy'n ddyladwy i'r Comisiynydd.

Adran 11 - Pwerau

23. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer cyffredinol i'r Comisiynydd i wneud unrhyw beth y mae'n credu ei fod yn briodol i'w wneud mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'i swyddogaethau gan gynnwys y pethau hynny sydd wedi'u rhestru yn is-adran (2) ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw. Mae is-adran (2) yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) i (6).

Adran 12 - Staff

24. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch staff y Comisiynydd sy'n gorfod cynnwys Dirprwy Gomisiynydd.

Section 6 – 5-year reports: supplementary

17. This section makes additional provision about the production and publication of the 5-year reports.

Section 7 – Inquiries

18. This section provides the Commissioner with the power to conduct inquiries into any matter relating to any of his or her functions. This general power of inquiry is subject to subsections (3) to (5). Subsection (9) gives effect to Schedule 2 which makes further provision about inquiries.

Section 8 – Judicial review and other legal proceedings

19. This section enables the Commissioner to institute or intervene in legal proceedings in England and Wales if it appears to the Commissioner that the proceedings are relevant to a matter in respect of which he or she has a function.
20. In addition to providing that the Commissioner’s power to institute or intervene in legal proceedings is subject to any limitations and restrictions imposed by legislation or rules of court, subsection (2) makes clear that subsection (1) does not, of itself, create a cause of action.

Section 9 – Legal assistance

21. This section provides the Commissioner with the power to provide an individual with assistance if that person is, or may become, a party to actual or possible legal proceedings in England and Wales that are relevant to a matter in respect of which the Commissioner has a function. “Assistance” for the purposes of this section includes, but is not limited to, legal advice; legal representation and facilities for the settlement of a dispute.

Section 10 – Legal assistance: costs

22. In circumstances where the Commissioner has assisted an individual under section 9 in relation to legal proceedings, and that individual becomes entitled to some or all of his or her costs in the proceedings, this section ensures that the Commissioner’s expenses in providing the assistance are charged on sums paid to the individual by way of costs. Such sums may be enforced as a debt due to the Commissioner.

Section 11 – Powers

23. This section provides the Commissioner with a general power to do anything that he or she thinks is appropriate in connection with any of his or her functions including but not limited to those things listed in subsection (2). Subsection (2) is subject to subsections (4) to (6).

Section 12 – Staff

24. This section makes provision about the Commissioner’s staff which must include a Deputy Commissioner.

Adran 13 - Arfer swyddogaethau'r Comisiynydd gan staff

25. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ddirprwyo unrhyw rai neu'r cyfan o'i swyddogaethau i aelod o'r staff. Mae'r adran yn cyfeirio hefyd at y sefyllfaoedd hynny lle mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn gallu cael eu harfer gan y Dirprwy Gomisiynydd.

Adran 14 - Y weithdrefn gwyno

26. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion ynghylch gweithredoedd neu anweithiau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

Adran 15 - Y sêl a dilysrwydd dogfennau

27. Mae'r adran hon yn ymdrin â chyflawni dogfennau gan y Comisiynydd a'u defnyddio fel tystiolaeth.

Adran 16 - Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd

28. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer amodol i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiynydd ac yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath. Ni ellir rhoi cyfarwyddiadau mewn perthynas â rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson gan y Comisiynydd, mewn perthynas â gorfodi safonau gan y Comisiynydd neu mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Comisiynydd a geir yn y Rhan honno o'r Mesur sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Adran 17 - Ymgynghori

29. Pan fo'r Comisiynydd, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth, yn ymgynghori â'r Panel Cyngori neu ag unrhyw berson arall yn unol â'r Mesur, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r ymgynghoriad wrth arfer y swyddogaeth.

Adran 18 - Adroddiadau blynyddol

30. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiadau mewn perthynas â phob blynyddyn ariannol.

Adran 19 - Adroddiadau blynyddol: atodol

31. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol y Comisiynydd.

Adran 20 - Gweithio ar y cyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

32. Pan fo'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad i orfodi safonau (fel y mae wedi'i ddiffinio) neu pan fo ganddo hawl i'w gynnal, a bod testun yr ymchwiliad yn un y gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio iddo hefyd, os yw'r Comisiynydd yn credu bod hynny'n briodol mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r Ombwdsmon ac ymgynghori ag e. Yna caiff y Comisiynydd a'r Ombwdsmon gydweithredu â'i gilydd drwy wneud unrhyw rai o'r pethau neu'r cyfan o'r pethau sydd wedi'u rhestru yn is-adran (3).

Section 13 – Exercise of Commissioner’s functions by staff

25. This section provides the Commissioner with the power to delegate any or all of his or her functions to a member of staff. The section also refers to those situations where the Commissioner’s functions are exercisable by the Deputy Commissioner.

Section 14 – Complaints procedure

26. This section places a duty upon the Commissioner to establish a procedure for the investigation of complaints about acts or omissions relating to the exercise of the Commissioner’s functions.

Section 15 – Seal and validity of documents

27. This section deals with the execution of documents by the Commissioner and their use in evidence.

Section 16 – Welsh Ministers’ power of direction

28. This section provides the Welsh Ministers with a qualified power to direct the Commissioner and places a duty on the Commissioner to comply with any such directions. Directions cannot be given in relation to the giving of a compliance notice to a person by the Commissioner, the enforcement of standards by the Commissioner or in respect of the Commissioner’s functions contained in that Part of the Measure which makes provision in relation to the freedom to use Welsh.

Section 17 – Consultation

29. Where, in connection with the exercise of a function, the Commissioner consults the Advisory Panel or any other person in accordance with the Measure, the Commissioner must have regard to the consultation in exercising the function.

Section 18 – Annual reports

30. This section requires the Commissioner to produce reports in relation to each financial year.

Section 19 – Annual reports: supplementary

31. This section makes additional provision about the production and publication of the Commissioner’s annual reports.

Section 20 – Working jointly with the Public Services Ombudsman for Wales

32. Where the Commissioner undertakes or is entitled to undertake a standards enforcement investigation (as defined) the subject matter of which could also be investigated by the Public Services Ombudsman for Wales, if the Commissioner thinks it appropriate, he or she must inform and consult the Ombudsman. The Commissioner and the Ombudsman may then co-operate with each other by doing any or all of the things listed in subsection (3).

Adran 21 - Gweithio'n gyfochrog ag ombwdsryn, comisiynwyr etc

33. Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod pwnc ymchwiliad i orfodi safonau (fel y mae wedi'i ddiffinio) y bydd y Comisiynydd yn ei gynnal, neu y mae ganddo hawl i'w gynnal, yn ymwneud â mater neu'n codi mater y gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y mae pob un ohonynt yn gyrff sy'n dod o fewn y diffiniad o "ombwdsmon" yn is-adran (6)) ymchwilio iddo. Mewn achos o'r fath rhaid i'r Comisiynydd, os yw'n meddwl bod hynny'n briodol, ymgynghori â'r ombwdsmon perthnasol ynghylch y mater hwnnw.
34. Pan fo'r Comisiynydd yn cynnal ei ymchwiliad a bod yr ombwdsmon perthnasol hefyd yn cynnal ymchwiliad i'r mater sy'n dod o fewn cylch gwaith yr ombwdsmon hwnnw, cânt wneud unrhyw rai o'r pethau neu'r cyfan o'r pethau sydd wedi'u rhestru yn is-adran (4).
35. Mae is-adran (7) yn darparu i Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiwygio'r diffiniad o "ombwdsmon" yn is-adran (6) drwy ychwanegu person, hepgor person neu newid disgrifiad o berson.
36. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3.

Adran 22 - Y pŵer i ddatgelu gwybodaeth

37. Mae'r adran hon yn atal y Comisiynydd rhag datgelu gwybodaeth a geir wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau oni bai bod is-adran (2) yn awdurdodi ei datgelu.

Adran 23 - Y Panel Cyngori

38. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi'r Panel Cyngori ac mae'n rhoi ei heffaith i Atodlen 4 sy'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch aelodau'r Panel Cyngori.

Adran 24 - Ymgynghori

39. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ymgynghori â'r Panel Cyngori ynghylch unrhyw fater.

Adran 25 - Dyletswydd i gydymffurfio â safon

40. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson (y cyfeirir ato yma fel "P") gydymffurfio â safon ymddygiad os bodlonir, a thra bodlonir, y chwe amod sydd wedi'u rhestru yn is-adrannau (2) i (7).
- Amod 1 yw bod P yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Mae darpariaeth ynghylch personau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau yn cael ei gwneud ym Mhennod 3.
 - Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i P. Mae darpariaeth ynghylch y dosbarthiadau o safon sy'n gymwysadwy yn cael ei gwneud ym Mhennod 4.
 - Amod 3 yw bod y safon yn benodol gymwys i P. Mae darpariaeth ynghylch safonau sy'n benodol gymwys yn cael ei gwneud ym Mhennod 5.

Section 21 – Working collaboratively with ombudsmen, commissioners etc

33. This section applies if it appears to the Commissioner that the subject matter of a standards enforcement investigation (as defined) that the Commissioner undertakes, or is entitled to undertake, relates to or raises a matter which could be investigated by the Public Services Ombudsman for Wales, the Children’s Commissioner for Wales, the Commissioner for Older People in Wales or the Commission for Equality and Human Rights (all bodies which fall within the definition of “ombudsman” in subsection (6)). In such a case the Commissioner must, if he or she thinks it appropriate, consult the relevant ombudsman about that matter.
34. Where the Commissioner undertakes his or her investigation and the relevant ombudsman also undertakes an investigation into the matter within that ombudsman’s remit, they may do any or all of the things listed in subsection (4).
35. Subsection (7) provides Welsh Ministers with the power to amend the definition of “ombudsman” in subsection (6) by adding a person, omitting a person or changing a description of a person.
36. This section introduces Schedule 3.

Section 22 – Power to disclose information

37. This section prevents the Commissioner from disclosing information obtained in the exercise of any of his or her functions unless the disclosure is authorised by subsection (2).

Section 23 – Advisory Panel

38. This section makes provision about the appointment of the Advisory Panel and gives effect to Schedule 4 which makes further provision about its members.

Section 24 – Consultation

39. This section provides the Commissioner with the power to consult the Advisory Panel on any matter.

Section 25 – Duty to comply with a standard

40. This section requires a person (referred to here as “P”) to comply with a standard of conduct if, and for as long as, the six conditions listed in subsections (2) to (7) are met.
- Condition 1 is that P is liable to be required to comply with standards. Provision about persons liable to be required to comply with standards is made in Chapter 3.
 - Condition 2 is that the standard is potentially applicable to P. Provision about the classes of standard that are potentially applicable is made in Chapter 4.
 - Condition 3 is that the standard is specifically applicable to P. Provision about standards that are specifically applicable is made in Chapter 5.

- Amod 4 yw bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i P. Mae darpariaeth ynghylch hysbysiadau cydymffurfio yn cael ei gwneud ym Mhennod 6.
- Amod 5 yw bod yr hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon (gweler Pennod 6).
- Amod 6 yw bod yr hysbysiad cydymffurfio mewn grym (gweler Pennod 6).

41. Mae'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod ar P i gydymffurfio â safon yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn yr hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi i P (gweler Pennod 6).

Adran 26 - Gweinidogion Cymru i bennu safonau

42. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu un neu ragor o safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu neu safonau cadw cofnodion.

43. Mae pob un o'r safonau hyn yn cael ei diffinio ar wahân yn adrannau 28 i 32.

Adran 27 - Pennu safonau: darpariaeth atodol

44. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safon cadw cofnodion ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg heblaw cwynion ynghylch sut mae person wedi cydymffurfio â safonau eraill o dan amgylchiadau penodol. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu gwahanol safonau o'r math y cyfeirir atynt yn adran 26 mewn perthynas ag ymddygiad gwahanol.

Adran 28 - Safonau cyflenwi gwasanaethau

45. Mae'r adran hon yn diffinio "safon cyflenwi gwasanaethau" i olygu safon ymddygiad sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, wrth i'r gweithgaredd hwnnw gael ei gyflawni.

46. Mae "gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau" yn cael ei ddiffinio yn is-adran (2) i olygu bod person yn cyflenwi gwasanaethau i berson arall neu'n ymdrin â pherson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau i'r person arall hwnnw neu i drydydd person.

Adran 29 - Safonau llunio polisi

47. Mae'r adran hon yn diffinio "safon llunio polisi" i olygu safon sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

- bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effaith, os byddai effaith o gwbl, a gâi'r penderfyniad polisi ar y cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gallai gwneud y penderfyniad gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

These notes refer to the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1) which received approval by Her Majesty in Council on 9 February 2011

- Condition 4 is that the Commissioner has given a compliance notice to P. Provision about compliance notices is made in Chapter 6.
- Condition 5 is that the compliance notice requires P to comply with the standard (see Chapter 6).
- Condition 6 is that the compliance notice is in force (see Chapter 6).

41. The duty placed on P to comply with a standard is subject to the provisions of the compliance notice given to P (see Chapter 6).

Section 26 – Welsh Ministers to specify standards

42. This section allows the Welsh Ministers to specify one or more service delivery standards, policy making standards, operational standards, promotion standards or record keeping standards.

43. Each of these standards is separately defined in sections 28 to 32.

Section 27 – Specification of standards: supplementary provision

44. This section allows the Welsh Ministers to specify a record keeping standard for complaints concerning the Welsh language other than complaints concerning a person's compliance with other standards in certain circumstances. It also permits the Welsh Ministers to make regulations specifying different standards of the kind referred to in section 26 in relation to different conduct.

Section 28 – Service delivery standards

45. This section defines "service delivery standard" to mean a standard of conduct that relates to a service delivery activity and is intended to promote or facilitate the use of the Welsh language, or to work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language, when that activity is carried out.

46. "Service delivery activity" is defined in subsection (2) to mean a person delivering services to another person or dealing with any other person in connection with delivering services to that other person or to a third person.

Section 29 – Policy making standards

47. This section defines "policy making standard" to mean a standard that relates to a policy decision and which is intended to secure, or to contribute to securing, one or more of the following results:

- that the person making the policy decision considers what effect, if any, the policy decision would have on the opportunities for other persons to use the Welsh language, or treating the Welsh language no less favourably than the English language;
- that the person making the policy decision considers how it could have positive effects or increased positive effects on opportunities for other persons to use the Welsh language, or treating the Welsh language no less favourably than the English language;

- bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gallai'r penderfyniad gael ei wneud fel nad yw'n cael effeithiau andwyol neu fel ei fod yn lleihau unrhyw effeithiau andwyol a gâi'r penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

48. Yn yr adran hon, gall effeithiau cadarnhaol neu andwyol olygu'r rhai sy'n cael eu profi yn uniongyrchol ynteu'n anuniongyrchol.
49. Ystyr "penderfyniad polisi" at ddibenion y Rhan hon yw penderfyniad gan y person ynghylch arfer swyddogaethau'r person neu ynghylch cynnal busnes neu ymgymeriad arall y person.

Adran 30 - Safonau gweithredu

50. Mae'r adran hon yn diffinio "safon gweithredu" i olygu safon ymddygiad sy'n ymwneud â gweithgareddau perthnasol person (y cyfeirir ato yma fel "A") ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg:
- gan A wrth gyflawni gweithgareddau perthnasol A;
 - gan A a pherson arall wrth iddyn nhw ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A; neu
 - gan berson heblaw A wrth gyflawni gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â nhw.
51. Mae "gweithgareddau perthnasol" yn cael eu diffinio i olygu swyddogaethau, neu fusnes neu ymgymeriad arall. Mae cyfeiriad at gyflawni gweithgareddau perthnasol yn gyfeiriad at arfer swyddogaethau neu at gynnal busnes neu ymgymeriad arall.

Adran 31 - Safonau hybu

52. Mae'r adran hon yn diffinio "safon hybu" i olygu safon ymddygiad (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

Adran 32 - Safonau cadw cofnodion

53. Mae'r adran hon yn diffinio "safon cadw cofnodion" i olygu safon sy'n ymwneud â chadw cofnodion ynghylch safonau penodedig eraill a chofnodion ynghylch cwynion ynglŷn â sut mae person wedi cydymffurfio â safonau eraill neu gwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Ystyr "safon benodedig" yw safon sydd wedi'i phennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan adran 26(1).

Adran 33 - Personau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau

54. Mae person ("P") yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw P:
- yn dod o fewn colofn (2) o'r tabl yn Atodlen 5; a hefyd o fewn colofn (1) o'r tabl yn Atodlen 6, neu'n dod o fewn categori o bersonau sydd wedi'u rhestru yn y colofnau hynny; neu
 - yn dod o fewn colofn (2) o'r tabl yn Atodlen 7 a hefyd yn dod o fewn un o'r disgrifiadau yng ngholofn (1) o'r tabl yn Atodlen 8.

- that the person making the policy decision considers how the decision could be made so that it doesn't have or reduces any adverse effects which the policy decision would have on opportunities for other persons to use the Welsh language, or treating the Welsh language no less favourably than the English language.

48. In this section positive or adverse effects can mean those experienced directly or indirectly.

49. A "policy decision" for the purpose of this Part means a decision by the person about the exercise of the person's functions, or about the conduct of the person's business or other undertaking.

Section 30 – Operational standards

50. This section defines "operational standard" to mean a standard that relates to the relevant activities of a person (referred to here as "A") and is intended to promote or facilitate the use of the Welsh language:

- by A in carrying out A's relevant activities;
- by A and another person in dealings between them in connection with A's relevant activities; or
- by a person other than A in carrying out activities for the purposes of, or in connection with, A's relevant activities.

51. "Relevant activities" are defined to mean functions, or a business or other undertaking. A reference to the carrying out of relevant activities is to the exercise of functions, or about the conduct of a business or other undertaking.

Section 31 – Promotion standards

52. This section defines "promotion standard" to mean a standard (relating to any activity) that is intended to promote or facilitate the use of the Welsh language more widely.

Section 32 – Record keeping standards

53. This section defines "record keeping standard" to mean a standard relating to the keeping of records about other specified standards and records about complaints concerning a person's compliance with other standards or other complaints concerning the Welsh language. "Specified standard" means a standard specified by the Welsh Ministers in regulations under section 26(1).

Section 33 – Persons liable to be required to comply with standards

54. A person ("P") is open to being required to comply with standards if P:

- falls within column (2) of the table in Schedule 5; and also within column (1) of the table in Schedule 6, or within a category of persons listed in those columns, or
- falls within column (2) of the table in Schedule 7 and is also within one of the descriptions in column (1) of the table in Schedule 8.

Adran 34 - Personau sy'n dod o fewn Atodlenni 5, 6, 7 ac 8

55. Mae'r adran hon yn diffinio pa bryd y mae person yn dod o fewn Atodlenni 5, 6, 7 neu 8.
56. Mae gan y personau a'r cyrff yn y tabl yn Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc) safonau wedi'u rhestru gyferbyn â'u henwau nhw, ac mae'r personau a'r cyrff hynny yn agored i orfodi cydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau hynny. Mae gan y personau a'r cyrff sydd wedi'u rhestru yn y tabl yn Atodlen 8 (cyrff eraill) wasanaethau penodedig wedi'u rhestru gyferbyn â'u henwau ac y maent yn agored i orfod cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau a safonau cadw cofnodion mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny. Nid yw'r ffaith bod corff wedi'i restru yn yr Atodlenni hyn yn ei hun yn gosod dyletswydd ar gorff i gydymffurfio â safonau.
57. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n datgan pa safonau sydd i fod yn gymwys i ba bersonau neu gyrff, ac sydd yn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio. Mae safonau'n cael eu gosod ar berson neu gorff pan fydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio (adran 44) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person neu'r corff sydd wedi'i restru yn y tablau yn Atodlen 6 neu 8 gydymffurfio â'r safon neu'r safonau fel y maen nhw wedi'u nodi yn yr hysbysiad: yna mae'r person neu'r corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio.
58. Mae'r tablau yn Atodlen 5 (y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 6) ac Atodlen 7 (y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 8) yn rhoi disgrifiadau o bersonau neu gyrff a all gael eu dwyn o fewn cylch Atodlenni 6 neu 8.
59. Caniateir i bersonau neu gyrff sy'n dod o fewn y categori o bersonau yn Atodlen 5 gael eu hychwanegu at Atodlen 6, a chaniateir i'r personau sy'n dod o fewn i'r disgrifiadau o bersonau yn Atodlen 7 gael eu hychwanegu at Atodlen 8. Mae hyn yn galluogi i nifer y personau neu'r cyrff sydd wedi'u rhestru yn Atodlenni 6 ac 8 a all fod yn agored i gydymffurfio â safonau gynyddu dros amser ond, fel yr esboniwyd uchod, fydd personau ddim o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau nes bod y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio iddyn nhw.
60. Mae'r adran hon hefyd yn darparu nad yw newid yn enw person sydd wedi'i bennu yn Atodlenni 6 neu 8 yn effeithio ar sut mae'r Mesur hwn yn gweithredu mewn perthynas â'r person hwnnw.

Adran 35 - Diwygio personau a chategorïau a bennir yn Atodlenni 6 ac 8

61. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn i ddiwygio'r tablau yn Atodlenni 6 ac 8 yn unol â'r adran hon.

Adran 36 - Personau sy'n dod o fewn Atodlen 6

62. Mae'r adran hon yn gymwys i berson ("P") sydd o fewn colofn (1) o'r tabl yn Atodlen 6. Mae'n darparu mai'r safonau hynny sy'n ymddangos yng ngholofn (2) o gofnod P yn y tabl yn Atodlen 6 yw'r math o safonau y gallai Gweinidogion Cymru eu cymhwyso at P mewn rheoliadau.

Section 34 – Persons who are within Schedules 5, 6, 7 and 8

55. This section defines when a person falls within Schedules 5, 6, 7 or 8.
56. The persons and bodies in the Schedule 6 table (public bodies etc) have standards listed next to their names and are open to be required to comply with one or some of those standards. Persons and bodies listed in the Schedule 8 table (other bodies) have specified services listed next to their names, and are open to be required to comply with service delivery and record keeping standards in respect of those services. Simply being listed in these Schedules does not impose a duty to comply with standards.
57. The Welsh Ministers may make regulations stating which standards are to apply to which persons or bodies, and authorising the Commissioner to issue a compliance notice. Standards are imposed on a person or body when the Commissioner issues a compliance notice (section 44) requiring the person or body listed in the tables in Schedule 6 or 8 to comply with the standard or standards as set out in the notice: the person or body then becomes under a duty to comply.
58. The tables in Schedule 5 (categories of person that may be added to Schedule 6) and Schedule 7 (categories of person that may be added to Schedule 8) give descriptions of persons or bodies that may be brought within the ambit of Schedules 6 or 8.
59. Persons or bodies falling within the category of persons in Schedule 5 may be added to Schedule 6, and persons falling within the descriptions of persons in Schedule 7 may be added to Schedule 8. This allows for the number of persons or bodies listed in Schedules 6 and 8 who may be open to comply with standards to be increased over time however, as explained above, persons will not become under a duty to comply with standards until the Commissioner gives them a compliance notice.
60. This section also provides that a change in the name of a person specified in Schedules 6 or 8 does not affect the operation of this Measure in relation to that person.

Section 35 – Amendment to persons and categories specified in Schedules 6 and 8

61. This section provides the Welsh Ministers with an order making power to amend the tables in Schedules 6 and 8 in accordance with this section.

Section 36 – Persons within Schedule 6

62. This section applies to a person (“P”) who is within column (1) of the table in Schedule 6. It provides that those standards which appear in column (2) of P’s entry in the Schedule 6 table are the type of standards which the Welsh Ministers could apply to P in regulations.

Adran 37 - Personau sy'n dod o fewn Atodlen 8

63. Mae'r adran hon yn gymwys i berson ("P") sydd o fewn colofn (1) o'r tabl yn Atodlen 8, ac mae'n darparu mai'r unig ddau fath o safon y gallai Gweinidogion Cymru eu cymhwyso at P mewn rheoliadau yw-

- safonau cyflenwi gwasanaethau penodol; neu
- safonau cadw cofnodion penodol.

Adran 38 - Diwygio safonau cymwysadwy

64. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r tablau yn Atodlenni 6 ac 8 yn unol â'r adran hon.

Adran 39 - Safonau sy'n benodol gymwys

65. Bydd safon yn gymwys i berson ("P") os bydd Gweinidogion Cymru yn darparu mewn rheoliadau fod y safon yn gymwys i P ac yn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i P yn ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon. Mae Pennod 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau cydymffurfio.

Adran 40 - Dyletswydd i wneud safonau'n benodol gymwys

66. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 39 yn darparu bod y safon o dan sylw yn gymwys i un neu ragor o bersonau.

Adran 41 - Safonau gwahanol yn ymwneud ag ymddygiad penodol

67. Os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu nifer o safonau mewn perthynas ag ymddygiad penodol, mae'r adran hon yn galluogi rheoliadau o dan adran 39 i ddarparu ar gyfer un neu ragor o'r canlynol:

- i un safon fod yn benodol gymwys i un person, i ddau neu fwy o bersonau, neu i grŵp o bersonau;
- i ddwy neu fwy o safonau fod yn benodol gymwys i un person, i ddau neu fwy o bersonau, neu i grŵp o bersonau;
- i safonau gwahanol fod yn benodol gymwys i bersonau gwahanol.

Adran 42 - Dyletswydd i wneud rhai safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys

68. Os bydd rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 39 yn darparu bod unrhyw safon cyflenwi gwasanaethau yn gymwys i P (a bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau o dan adran 26(1) yn pennu safon o'r fath), mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau hynny'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn ymwneud â'r holl weithgareddau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 9 yn gymwys (os yw P yn cyflawni'r gweithgareddau hynny, ac i'r graddau y mae'n eu cyflawni).

Section 37 – Persons within Schedule 8

63. This section applies to a person (“P”) who is within column (1) of the table in Schedule 8, and provides that the only two types of standard which Welsh Ministers could apply to P are –

- certain service delivery standards; or
- certain record keeping standards.

Section 38 – Amendment of standards potentially applicable

64. The Welsh Ministers may, by order, amend the tables in Schedules 6 and 8 in accordance with this section.

Section 39 – Standards that are specifically applicable

65. A standard will apply to a person (“P”) if the Welsh Ministers provide in regulations that the standard applies to P, and authorise the Commissioner to give P a compliance notice requiring P to comply with the standard. Chapter 6 makes provision about compliance notices.

Section 40 – Duty to make standards specifically applicable

66. This section imposes a duty upon the Welsh Ministers to secure that the regulations made under section 39 provide that the standard in question applies to one or more persons.

Section 41 – Different standards relating to particular conduct

67. If the Welsh Ministers specify a number of standards in relation to particular conduct, this section enables regulations under section 39 to provide for one or more of the following:

- for one standard to be specifically applicable to one person, to two or more persons, or to a group of persons;
- for two or more standards to be specifically applicable to one person, to two or more persons, or to a group of persons;
- for different standards to be specifically applicable to different persons.

Section 42 – Duty to make certain service delivery standards specifically applicable

68. In the event that regulations made under section 39 provide for any service delivery standard to apply to P (and that the Welsh Ministers have made regulations under section 26(1) specifying such a standard), this section requires the Welsh Ministers to ensure that those regulations provide for service delivery standards relating to all of the activities listed in Schedule 9 to apply (if, and to the extent that, P carries out those activities).

69. Fodd bynnag, o dan is-adran (3) os bydd, neu i'r graddau y bydd:
- adroddiad safonau o dan adran 64 yn dangos y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw; neu
 - Gweinidogion Cymru'n credu y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw,

yna nid oes angen i reoliadau o dan adran 39 sicrhau bod safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys i P mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 38 i ddarparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn gymwys i P.

Adran 43 - Cyfyngiadau ar y pŵer i wneud safonau'n benodol gymwys

70. Yn unol â'r adran hon, dim ond os yw'r safon yn perthyn i'r math o safon y gallai fod yn bosibl i'r person neu i grŵp o bersonau orfod cydymffurfio â hi (gweler Pennod 4) y caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 39 ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson neu i grŵp o bersonau. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu i safon fod yn benodol gymwys i unrhyw un o Weinidogion y Goron oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth honno.

Adran 44 - Hysbysiadau cydymffurfio

71. Mae "hysbysiad cydymffurfio" yn cael ei ddiffinio gan yr adran hon i olygu hysbysiad sy'n cael ei roi gan y Comisiynydd i berson ("P") ac sy'n nodi neu'n crybwyll un neu ragor o safonau sy'n cael eu pennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 26(1), gan ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon neu'r safonau a nodwyd neu a grybwyllwyd.
72. Caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol o dan rai amgylchiadau, ond nid amgylchiadau eraill a/neu mewn rhyw ardal neu ardaloedd, ond nid ardaloedd eraill.
73. Pan fo rheoliadau sy'n cael eu cynhyrchu gan Weinidogion Cymru o dan adran 39 yn darparu bod dwy neu fwy o safonau yn gymwys i berson penodol mewn perthynas ag ymddygiad penodol caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i'r person wneud y canlynol:
- cydymffurfio ag un yn unig o'r safonau; neu
 - gydymffurfio â gwahanol safonau ar adegau gwahanol, o dan amgylchiadau gwahanol (boed ar yr un adeg ynteu ar adegau gwahanol) neu mewn ardaloedd gwahanol (boed ar yr un adeg ynteu ar adegau gwahanol).

Adran 45 - Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i unrhyw berson

74. Dim ond os yw P yn agored i orfod cydymffurfio â safonau yn unol â Phennod 3 y caniateir i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i P.

69. However under subsection (3) if, or to the extent that

- a standards report under section 64 indicates that it would be unreasonable or disproportionate for service delivery standards to be specifically applicable to P in relation to that activity; or
- the Welsh Ministers think it would be unreasonable or disproportionate for service delivery standards to be specifically applicable to P in relation to that activity

then regulations under section 39 need not secure that service delivery standards are specifically applicable to P in relation to an activity specified in Schedule 9. This section also enables regulations made under section 38 to provide for other service delivery standards to apply to P.

Section 43 – Limitation on power to make standards specifically applicable

70. In accordance with this section, regulations made by the Welsh Ministers under section 39 may only provide that a standard applies specifically to a person or to a group of persons, if the standard belongs to the type of standard with which that person or each member of the group could potentially have to comply (see Chapter 4). The Welsh Ministers may not make regulations providing for a standard to be specifically applicable to a Minister of the Crown unless the Secretary of State consents to that provision.

Section 44 – Compliance notices

71. A “compliance notice” is defined by this section to mean a notice given by the Commissioner to a person (“P”) which sets out or refers to one or more of the standards specified by the Welsh Ministers in regulations made under section 26(1), and requires P to comply with the standard or standards set out or referred to.

72. A compliance notice may require a person to comply with a particular standard in some circumstances, but not in other circumstances and/or in some area or areas, but not in other areas.

73. Where regulations produced by the Welsh Ministers under section 39 provide that two or more standards are applicable to a particular person in relation to particular conduct a compliance notice may require the person to:

- comply with only one of the standards, or
- comply with different standards at different times, in different circumstances (whether at the same time or different times) or, in different areas (whether at the same time or different times).

Section 45 – Giving compliance notices to any person

74. The Commissioner may only give P a compliance notice if P is open to being required to comply with standards in accordance with Chapter 3.

75. Caiff hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi i P nodi neu grybwyll safon benodol, ond dim ond os yw'r safon:
- yn safon sy'n gymwysadwy i P (yn unol â Phennod 4); ac
 - yn benodol gymwys i P (yn unol â Phennod 5).
76. Pan fo hysbysiad cydymffurfio yn cael ei roi i P gan y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd roi copi i P o unrhyw god ymarfer perthnasol sydd wedi'i ddyroddi o dan adran 68 a rhoi gwybod i P am yr hawl i herio o dan Bennod 7.
77. Mae darpariaeth ynghylch rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr yn cael ei gwneud yn adran 48.

Adran 46 - Diwrnodau gosod

78. Rhaid i bob safon sy'n cael ei phennu mewn hysbysiad cydymffurfio ddatgan y diwrnod(au) gosod. Rhaid i'r diwrnod gosod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau gosod, syrthio ar ôl diwedd chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cydymffurfio.
79. Mewn perthynas â safon, ystyr "diwrnod gosod" yw:
- y diwrnod y mae'n dechrau bod yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon; neu
 - y diwrnod y mae'n dechrau bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol.

Adran 47 - Ymgynghori

80. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â pherson cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw. Dydy'r gofyniad hwn ddim yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn fodlon yr ymgynghorwyd â'r person eisoes, neu ei fod wedi cael cyfle ar gyfer ymgynghori ag e, mewn cysylltiad ag ymchwiliad i safonau (gweler Pennod 8). Os bydd person yn methu â chymryd rhan mewn ymgynghoriad, fydd hynny ddim yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Adran 48 - Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr

81. Mae'r adran hon yn gymwys i hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi i berson sy'n dod o fewn colofn (2) o'r tabl yn Atodlen 7 ("person neilltuedig") sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ("y gwasanaethau perthnasol") sy'n cael eu darparu o dan gontract, neu yn unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus ("y contract perthnasol"). Dim ond os yw'r amodau yn is-adran (2) wedi'u bodloni y caniateir i hysbysiad o'r fath nodi neu grybwyll safon benodol mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau perthnasol o dan y contract perthnasol. Rhaid i'r gofyniad i'r person cymwys gydymffurfio â'r safon benodol fod yr un fath â'r gofyniad, neu heb fod yn fwy na'r gofyniad, i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon.

Adran 49 - Amrywio hysbysiadau cydymffurfio

82. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd amrywio unrhyw hysbysiad cydymffurfio.

75. A compliance notice given to P may set out, or refer to, a particular standard only if the standard:
- is a type of standard with which P could potentially be required to comply (in accordance with Chapter 4); and
 - is specifically applicable to P (in accordance with Chapter 5).
76. Where P is given a compliance notice by the Commissioner, the Commissioner must give P a copy of any relevant code of practice issued under section 68 and inform P of the right of challenge under Chapter 7.
77. Provision about giving compliance notices to contractors is made in section 48.

Section 46 – Imposition days

78. Each standard specified in a compliance notice must state the imposition day(s). The imposition day, or the earliest of the imposition days, must fall after the end of 6 months beginning with the day on which the compliance notice is given.
79. In relation to a standard, “imposition day” means:
- the day from which a person is to be required to comply with the standard, or
 - the day from which a person is to be required to comply with the standard in a respect.

Section 47 – Consultation

80. This section requires the Commissioner to consult a person before giving that person a compliance notice. This requirement does not apply if the Commissioner is satisfied that the person has already been consulted, or given the opportunity to be consulted, in connection with a standards investigation (see Chapter 8). If a person fails to take part in a consultation, this will not prevent the Commissioner from giving that person a compliance notice.

Section 48 – Giving compliance notices to contractors

81. This section applies to a compliance notice given to a person falling within column (2) of the table in Schedule 7 (“qualifying person”) who provides the public with services (“the relevant services”) provided under an agreement, or in accordance with arrangements, made with a public authority (“the relevant contract”). Such a notice can only set out, or refer to, a particular standard in relation to the provision of the relevant services under the relevant contract if the conditions in subsection (2) are met. The requirement for the qualifying person to comply with the particular standard must be the same as or no greater than the requirement for the public authority to comply with the standard.

Section 49 – Varying compliance notices

82. This section allows the Commissioner to vary any compliance notice.

Adran 50 - Dirymu hysbysiadau cydymffurfio

83. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd ddirymu unrhyw hysbysiad cydymffurfio.

Adran 51 - Pan fydd hysbysiad cydymffurfio mewn grym

84. Mae hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi i P mewn grym o'r diwrnod y bydd y Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad i P hyd nes iddo gael ei ddirymu.

Adran 52 - Cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio

85. Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â'r gofynion sy'n cael eu gosod gan yr adran hon ynghylch trefnu bod copïau o hysbysiadau cydymffurfio yn hygyrch ac ar gael i'w harchwilio.

Adran 53 - Gofyniad i gydymffurfio â safon yn dod i ben

86. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i P beidio â bod o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safon yn sgil y ffaith bod un neu ragor o'r amodau yn adran 25 heb eu bodloni, neu fod y safon yn peidio â bod wedi'i phennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod unrhyw hysbysiadau cydymffurfio sy'n ymwneud â P ac sy'n dal mewn grym yn adlewyrchu'r newid hwnnw.

Adran 54 - Herio dyletswyddau dyfodol

87. Pan fo person ("P") wedi cael hysbysiad cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â safon o ddiwrnod gosod yn y dyfodol, caniateir i P wneud cais i'r Comisiynydd am ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon, neu i gydymffurfio â hi mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

Adran 55 - Herio dyletswyddau presennol

88. Pan fo P wedi cael hysbysiad cydymffurfio sydd eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â safon, mae'r adran hon yn caniatáu i P wneud cais i'r Comisiynydd am ddyfarnu a yw'r gofyniad i P gydymffurfio â'r safon, neu i gydymffurfio â hi mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

89. Caiff y Comisiynydd wrthod derbyn cais o dan yr adran hon os yw'n fodlon nad oes newid o sylwedd wedi bod yn amgylchiadau P ers y diwrnod y daeth yn ofynnol am y tro cyntaf i P gydymffurfio â'r safon honno (yn gyfan gwbl neu mewn modd penodol) neu ers y diwrnod y dyfarnodd y Comisiynydd ar y cwestiwn perthnasol ar gais blaenorol o dan yr adran hon (os oes cais blaenorol wedi'i wneud).

90. Yn yr adran hon, ystyr "cwestiwn perthnasol" yw'r cwestiwn y mae cais o dan yr adran hon yn cyfeirio ato sef a oedd y gofyniad i gydymffurfio â'r safon neu i gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

Adran 56 - Ceisiadau i'r Comisiynydd

91. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ceisiadau i'r Comisiynydd sy'n ceisio herio dyletswyddau dyfodol a dyletswyddau presennol o dan adran 54 neu 55.

Section 50 – Revoking compliance notices

83. This section allows the Commissioner to revoke any compliance notice.

Section 51 – When compliance notice is in force

84. A compliance notice given to P is in force from the day when the Commissioner gives the notice to P until such time as it is revoked.

Section 52 – Publicising compliance notices

85. The Commissioner must comply with the requirements for making copies of compliance notices accessible and available for inspection imposed by this section.

Section 53 – Cessation of requirement to comply with standard

86. As soon as practicable after P ceases to be under a duty to comply with a standard due to the fact that one or more of the conditions in section 25 are not satisfied or the standard ceases to be specified by the Welsh Ministers under section 26(1), the Commissioner must ensure that any compliance notices relating to P which remain in force reflect this change.

Section 54 – Challenging future duties

87. Where a person (“P”) has been given a compliance notice which requires P to comply with a standard as from a future imposition day, P is allowed to apply to the Commissioner for a determination as to whether or not the requirement to comply with a standard, or to comply with it in a certain respect, is unreasonable or disproportionate.

Section 55 – Challenging existing duties

88. Where P is in receipt of a compliance notice which already requires P to comply with a standard, this section allows P to apply to the Commissioner for a determination as to whether or not the requirement for P to comply with a standard, or to comply with it in a certain respect, is unreasonable or disproportionate.

89. The Commissioner may refuse to accept an application under this section if he or she is satisfied that there has been no material change in P’s circumstances since the day on which P was first required to comply with that standard (wholly or in a particular respect) or since the day that the Commissioner determined the relevant question on a previous application under this section (if a previous application has been made).

90. In this section, “relevant question” means the question to which an application under this section relates of whether the requirement to comply with the standard, or to comply with the standard in a particular respect, was unreasonable or disproportionate.

Section 56 – Applications to the Commissioner

91. This section makes provision about the form and content of applications to the Commissioner which seek to challenge future and existing duties under section 54 or 55.

Adran 57 - Dyfarnu ar gais

92. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch dyfarnu ar unrhyw gais i'r Comisiynydd o dan adran 54 neu unrhyw gais nad yw'r Comisiynydd yn gwrthod ei dderbyn o dan adran 55. Mae'r baich yn cael ei osod ar P i ddangos bod y gofyniad i P gydymffurfio â safon (yn gyfan gwbl neu mewn modd penodol) yn afresymol neu'n anghymesur.
93. Os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu o blaid cais P mae'n rhaid i'r Comisiynydd (a) dirymu'r hysbysiad cydymffurfio (b) dirymu'r hysbysiad cydymffurfio a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd neu (c) amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol.

Adran 58 - Yr hawl i apelio

94. Os bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i P am ddyfarniad nad yw'r gofyniad y mae P wedi'i herio yn afresymol neu'n anghymesur, mae'r adran hon yn caniatáu i P apelio i'r Tribiwnlys am ddyfarniad a yw'r gofyniad hwnnw'n afresymol neu'n anghymesur neu beidio.
95. Yn ddarostyngedig i is-adran (4), rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud o fewn 28 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddodd y Comisiynydd wybod i P am ei ddyfarniad ar y cais.
96. Rhaid i'r Tribiwnlys roi gwybod i P a'r Comisiynydd am ei ddyfarniad ar apêl sy'n cael ei gwneud o dan yr adran hon.
97. Os bydd y Tribiwnlys yn dyfarnu bod y gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur, rhaid i'r Tribiwnlys (a) dirymu'r hysbysiad cydymffurfio (b) dirymu'r hysbysiad cydymffurfio a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd neu (c) amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol. Mae'r hawl i apelio'n ddarostyngedig i Reolau Tribiwnlys, sy'n gallu gwneud darpariaethau ynghylch dwyn apêl o dan yr adran hon.

Adran 59 - Apelau o'r Tribiwnlys

98. Pan fo'r Tribiwnlys wedi penderfynu apêl o dan adran 58, caiff y Comisiynydd neu P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad y Tribiwnlys.
99. Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud gwall ar bwynt cyfreithiol, caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du. Os gosodir yr achos o'r naill du, rhaid i'r Uchel Lys naill ai anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu ail-wneud y penderfyniad.
100. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfarwyddyd y caiff yr Uchel Lys ei roi i'r Tribiwnlys ac mae'n darparu y caiff yr Uchel Lys, pan fydd yn ail-wneud penderfyniad, wneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ei wneud, a chaiff wneud canfyddiadau ffeithiol fel y bo'n briodol yn ei farn ef.

Section 57 – Determining an application

92. This section makes provision about the determination of any application to the Commissioner under section 54 or any application that the Commissioner does not refuse to accept under section 55. The onus is placed on P to show that the requirement for P to comply with the standard (wholly or in a particular respect) is unreasonable or disproportionate.
93. If the Commissioner determines in favour of P's application the Commissioner must either (a) revoke the compliance notice (b) revoke the compliance notice and give a new compliance notice or (c) vary the existing compliance notice.

Section 58 – Right of appeal

94. If the Commissioner notifies P of a determination that the requirement challenged by P is not unreasonable or disproportionate this section allows P to appeal to the Tribunal for a determination as to whether or not that requirement is unreasonable or disproportionate.
95. Subject to subsection (4), an appeal under this section must be made within 28 days beginning with the day when the Commissioner notified P of his or her determination of the application.
96. The Tribunal must notify both P and the Commissioner of its determination of an appeal made under this section.
97. If the Tribunal determines that the requirement is unreasonable or disproportionate, the Tribunal must either (a) revoke the compliance notice (b) revoke the compliance notice and give a new compliance notice or (c) vary the existing compliance notice. The right of appeal is subject to Tribunal Rules, which can make provisions about bringing an appeal under this section.

Section 59 – Appeals from Tribunal

98. Where the Tribunal has decided an appeal under section 58, the Commissioner or P may, with the permission of the Tribunal or High Court, appeal to the High Court on a question of law arising out of the Tribunal's decision.
99. If the High Court finds that the Tribunal has made an error on a point of law, it may set aside the decision of the Tribunal. If the case is set aside, the High Court must either send the case back to the Tribunal with directions for its reconsideration or re-make the decision.
100. This section makes provision about the directions that the High Court may give to the Tribunal and provides that when re-making a decision, the High Court may make any decision which the Tribunal could make, and may make findings of fact as the it thinks appropriate.

101. Rhaid gwneud cais i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio a hynny cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl i'r Tribiwnlys hysbysu'r ymgeisydd am ei ddyfarniad ar yr apêl. Fodd bynnag, mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys y disgresiwn i ganiatáu apelau ar ôl 28 o ddiwrnodau os yw wedi'i fodloni bod rheswm da dros fethu â cheisio am ganiatâd mewn pryd, neu os bod rheswm da dros ohirio cais am ganiatâd.

Adran 60 - Gohirio gosod dyletswydd

102. Os bydd P yn gwneud cais i'r Comisiynydd am ddyfarniad a yw'r gofyniad i gydymffurfio, neu i gydymffurfio mewn modd penodol, â safon yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio, nid oes angen i P gydymffurfio â'r safon honno, neu gydymffurfio â hi yn y modd hwnnw, oni fydd a hyd nes bydd y Comisiynydd wedi gwneud dyfarniad a bod hawliau P i apelio wedi'u dihsbyddu.

Adran 61 - Ymchwiliadau safonau

103. Ystyr "ymchwiliad safonau" yw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â pherson ("P") er mwyn dyfarnu ar un neu ragor o'r cwestiynau ym mharagraffau (a) i (e) yn is-adran (1).
104. Caniateir i ymchwiliad safonau penodol gael ei gynnal mewn perthynas â pherson penodol neu grŵp penodol o bersonau.

Adran 62 - Y pŵer i gynnal ymchwiliadau safonau

105. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i gynnal ymchwiliadau safonau ar yr amod ei fod wedi rhoi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r ymchwiliad.
106. Hysbysiad ysgrifenedig sy'n datgan bod y Comisiynydd yn bwriadu cynnal ymchwiliad safonau ac sy'n nodi pwnc yr ymchwiliad hwnnw yw "hysbysiad rhagymchwilio".
107. Ystyr "person perthnasol" yw:
- yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â pherson penodol, y person hwnnw; ac
 - yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â grŵp o bersonau, unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp a phersonau y mae'r Comisiynydd yn credu ei bod yn briodol rhoi hysbysiadau rhagymchwilio iddyn nhw.

Adran 63 - Y gofynion wrth gynnal ymchwiliadau safonau

108. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd, wrth gynnal ymchwiliad safonau, roi sylw i'r angen i sicrhau nad yw gofynion i bersonau gydymffurfio â safonau yn afresymol neu'n anghymesur.
109. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried a'r canlyniadau y mae'n rhaid dod iddynt mewn amgylchiadau penodedig pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu, neu pan gaiff ei gyfarwyddo, bod ymchwiliad safonau i ystyried a ddylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson.

101. An application for permission to appeal must be made to the Tribunal or High Court within 28 days of the Tribunal notifying the applicant of its determination of the appeal. However the Tribunal or High Court has the discretion to allow appeals to be made after the 28 days if they are satisfied that there is a good reason for failing to apply for permission in time, or if there is a good reason for the delay in applying for permission.

Section 60 – Postponement of imposition of duty

102. If P applies to the Commissioner to determine whether or not the requirement to comply with a standard, or comply with the standard in a particular respect, is unreasonable or disproportionate, P need not comply with that standard or comply with it in that respect, unless and until the Commissioner has made a determination and P's rights of appeal are exhausted.

Section 61 – Standards investigations

103. A "standards investigation" means an investigation carried out in relation to a person ("P") for the purpose of determining one or more of the questions in paragraphs (a) to (e) of subsection (1).
104. A particular standards investigation may be carried out in relation to a particular person or a group of persons.

Section 62 – Power to carry out standards investigations

105. This section empowers the Commissioner to carry out standards investigations subject to having provided each relevant person with an exploration notice at least 14 days before beginning the investigation.
106. An "exploration notice" is a written notice which states that the Commissioner is proposing to carry out a standards investigation and specifies the subject matter of that investigation.
107. A "relevant person" means:
- in the case of a standards investigation relating to a particular person, that person; and
 - in the case of a standards investigation relating to a group of persons, such persons who appear to the Commissioner to be members of the group, and persons to whom the Commissioner thinks it appropriate to give exploration notices.

Section 63 – Requirements when carrying out standards investigations

108. The Commissioner, in carrying out a standards investigation, must have regard to the need to secure that requirements for persons to comply with standards are not unreasonable or disproportionate.
109. Subsection (2) makes provision about the matters to be considered and the conclusions that must be reached in specified circumstances where the Commissioner decides, or is directed, that a standards investigation is to consider whether service delivery standards should be specifically applicable to a person.

110. Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â phob person perthnasol, â'r Panel Cyngori ac â'r cyhoedd (oni fydd, ac i'r graddau y bydd, y Comisiynydd o'r farn ei bod yn amhriodol ymgynghori â'r cyhoedd).
111. Nid yw methiant person i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn atal y Comisiynydd rhag cynnal yr ymchwiliad safonau.
112. Ystyr "person perthnasol" yw:
 - yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â pherson penodol, y person hwnnw; ac
 - yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â grŵp o bersonau, unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp a phersonau y mae'r Comisiynydd yn credu ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

Adran 64 - Adroddiad safonau

113. Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiad safonau sy'n nodi casgliadau'r ymchwiliad safonau a rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau hynny.
114. Os bydd ymchwiliad yn dod i'r casgliad y dylai safonau fod yn benodol gymwys i P, a bod unrhyw rai neu'r cyfan o'r safonau hynny heb eu pennu mewn rheoliadau sydd wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau sydd heb eu pennu.
115. Rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad safonau i'r rhai a restrir yn is-adran (4)(a), a chaniateir iddo anfon copi o'r adroddiad at unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn bod ganddo fuddiant yn yr adroddiad.

Adran 65 - Cyfarwyddyd i gynnal ymchwiliad safonau

116. Pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 16 (gweler Rhan 2) i gyfarwyddo'r Comisiynydd i gynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson neu grŵp o bersonau, mae'n rhaid i'r cyfarwyddyd bennu'r materion sydd wedi'u rhestru ym mharagraffau (a) i (d) o is-adran (2).

Adran 66 - Gweinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i adroddiad

117. Pan fo'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad safonau ac wedi cynhyrchu adroddiad safonau rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylen nhw arfer y pŵerau sy'n cael eu rhoi iddyn nhw gan y Rhan hon o'r Mesur, a sut ddylen nhw arfer y pŵer hwnnw.

Adran 67 - Eithrio darlledu

118. Mae'r adran hon yn darparu nad yw'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i berson nac yn awdurdodi person i'w gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon os yw'r safon honno'n ymwneud â darlledu, ac i'r graddau y mae'n ymwneud â darlledu.
119. Mae is-adran (2) yn diffinio "darlledu" at ddibenion yr adran hon.

110. In carrying out a standards investigation, the Commissioner must consult each relevant person, the Advisory Panel and the public (unless, or to the extent that the Commissioner considers it is inappropriate to consult the public).
111. The failure of a person to participate in the Commissioner's consultation does not prevent the Commissioner from carrying out the standards investigation.
112. A "relevant person" means:
- in the case of a standards investigation relating to a particular person, that person; and
 - in the case of a standards investigation relating to a group of persons, such persons who appear to the Commissioner to be members of the group, and persons whom the Commissioner thinks it appropriate to consult.

Section 64 – Standards report

113. After carrying out a standards investigation the Commissioner must produce a standards report that sets out the conclusions of the standards investigation and the Commissioner's reasons for reaching those conclusions.
114. If an investigation concludes that standards should be specifically applicable to P, and any or all of those standards are not specified in regulations made by the Welsh Ministers under section 26(1), the standards report must set out the standards that are not specified.
115. The Commissioner must send a copy of the standards report to those listed in subsection (4)(a), and is permitted to send a copy of the report to any other person whom the Commissioner considers to have an interest in the report.

Section 65 – Direction to carry out standards investigation

116. Where Welsh Ministers exercise their power under section 16 (see Part 2) to direct the Commissioner to carry out a standards investigation in respect of a person or a group of persons, the direction must specify the matters listed in paragraphs (a) to (d) of subsection (2).

Section 66 – Welsh Minister to have due regard to report

117. Where the Commissioner has carried out a standards investigation and produced a standards report, Welsh Ministers must have due regard to the standards report in deciding whether, and how, to exercise the powers conferred on them by this Part of the Measure.

Section 67 – Exception for broadcasting

118. This section provides that the Measure does not require and does not authorise a person to require a person to comply with a standard if, and to the extent that, the standard relates to broadcasting.
119. Subsection (2) defines "broadcasting" for the purpose of this section.

Adran 68 - Codau ymarfer

120. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ddyroddi dogfen y bwriedir iddi roi canllawiau ymarferol ("cod ymarfer safonau") o ran gofynion unrhyw safonau sy'n cael eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1). Mae codau ymarfer safonau sy'n cael eu cynhyrchu o dan yr adran hon yn dod o dan ofynion ynglŷn ag ymgynghori yn ogystal â gofynion ynglŷn â chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Adran 69 - Methiant i gydymffurfio â chodau

121. Yn rhinwedd yr adran hon, dydy methiant person i gydymffurfio â darpariaeth mewn cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo ddim yn peri bod y person hwnnw'n agored i gamau gorfodi o unrhyw fath.

122. Serch hynny, os bydd camau'n cael eu cymryd o dan y Mesur mewn perthynas â methiant person (P) i gydymffurfio â safon ("y methiant safonau honedig"), caniateir dibynnu ar fethiant gan P i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo fel rhywbeth sy'n tueddu i sefydlu bod P yn atebol am y methiant safonau. Ar y llaw arall, caniateir dibynnu ar gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo fel rhywbeth sy'n tueddu i sefydlu nad yw P yn atebol am y methiant safonau honedig.

Adran 70 - Dehongli

123. Mae'r adran hon yn darparu bod cyfeiriadau:

- at fod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau i'w darllen yn unol ag adran 33;
- at gofnod person yn y tabl yn Atodlenni 6 neu 8 i'w darllen yn unol ag adran 34;
- at fod safon yn gymwysadwy i berson i'w darllen yn unol ag adrannau 36 a 37;
- at fod safon yn benodol gymwys i berson i'w darllen yn unol ag adran 39.

124. Darperir hefyd ddiffiniadau i'r tablau yn Atodlenni 5, 6, 7 ac 8.

Adran 71 - Ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau etc

125. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i weld a yw person (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "D") wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

126. Yn y Rhan hon, ystyr "gofyniad perthnasol" yw unrhyw rai o'r canlynol:

- dyletswydd i gydymffurfio â safon sy'n cael ei phennu gan Weinidogion Cymru (gweler adran 25);
- gofyniad sydd wedi'i gynnwys mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd adran 79 (sy'n cael ei hesbonio isod);
- cynllun gweithredu (gweler adrannau 79 a 80, sy'n cael eu hesbonio isod);
- gofyniad sy'n cael ei gynnwys mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd adran 82 (sy'n cael ei hesbonio isod).

127. Mae Atodlen 10 yn rhoi rhagor o fanylion am ymchwiliadau.

Section 68 – Codes of practice

120. This section provides the Commissioner with the power to issue a document intended to provide practical guidance (“standards code of practice”) with respect to the requirements of any standards specified by Welsh Ministers under section 26(1). Standards codes of practice produced under this section are subject to consultation requirements as well as the approval of the Welsh Ministers.

Section 69 – Failure to comply with codes

121. By virtue of this section, a person’s failure to comply with a provision of an approved code of practice does not render that person liable to enforcement action of any kind.

122. However, if any action is taken under the Measure in respect of a failure of a person (“P”) to comply with a standard (“the alleged standards failure”), a failure by P to comply with a relevant provision of an approved code of practice may be relied upon as tending to establish that P is liable for the alleged standards failure. Conversely, compliance with a relevant provision of an approved code of practice may be relied upon as tending to establish that P is not liable for the alleged standards failure.

Section 70 – Interpretation

123. This section provides that references to:

- a person being liable to be required to comply with standards are to be read in accordance with section 33;
- a person’s entry in the tables in Schedules 6 or 8 are to be read in accordance with section 34;
- a standard being potentially applicable to a person are to be read in accordance with sections 36 and 37;
- a standard being specifically applicable to a person are to be read in accordance with section 39.

124. Definitions are also provided for the tables in Schedules 5, 6, 7 and 8.

Section 71 – Investigating failure to comply with standards etc

125. The Commissioner may investigate whether a person (referred to in this Part as “D”) has failed to comply with a relevant requirement.

126. In this Part, a “relevant requirement” means any of the following:

- a duty to comply with a standard specified by the Welsh Ministers (see section 25);
- a requirement included in a decision notice by virtue of section 79 (explained below);
- an action plan (see sections 79 and 80, explained below);
- a requirement included in a decision notice by virtue of section 82 (explained below).

127. Schedule 10 provides further details about investigations.

Adran 72 - Terfynu ymchwiliad

128. Caiff y Comisiynydd, ar unrhyw adeg, derfynu ymchwiliad sy'n cael ei gynnal o dan adran 71. Os caiff ymchwiliad ei derfynu, rhaid i'r Comisiynydd roi gwybod i bob person sydd â buddiant, gan roi gwybod i D am y rhesymau dros wneud y penderfyniad.

Adran 73 - Dyfarnu ar ymchwiliad

129. Pan na fydd y Comisiynydd yn terfynu ymchwiliad, mae'n rhaid iddo ddyfarnu a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu beidio (gweler adran 71 uchod). Wrth wneud hynny, rhaid i'r Comisiynydd:

- gynhyrchu adroddiad ar yr ymchwiliad (yn unol â'r diffiniad yn adran 74), gan roi copi i bob person sydd â buddiant; a
- rhoi hysbysiad penderfynu i D, gan roi copi i unrhyw berson arall sydd â buddiant.

130. Wrth wneud dyfarniad o dan yr adran hon, rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â'r gofynion sy'n cael eu gosod gan adran 85 (ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol etc).

Adran 74 - Adroddiadau ar ymchwiliadau

131. Ystyr adroddiad ar ymchwiliad yw adroddiad ar ymchwiliad o dan adran 71 sy'n cynnwys y cyfan o'r canlynol:

- cylch gorchwyl yr ymchwiliad;
- crynodeb o'r dystiolaeth a gafodd ei chymryd yn ystod yr ymchwiliad;
- canfyddiadau'r Comisiynydd ar yr ymchwiliad;
- dyfarniad y Comisiynydd a yw D wedi cydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu beidio;
- datganiad ynghylch a fydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach;
- os yw'r Comisiynydd am weithredu ymhellach, datganiad ar y gweithredu hwnnw.

132. Serch hynny, gall y Comisiynydd gynnwys materion eraill yn yr adroddiad.

Adran 75 - Hysbysiadau penderfynu

133. Ystyr hysbysiad penderfynu yw hysbysiad yn datgan dyfarniad y Comisiynydd a wnaeth D fethu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu beidio (yn unol â'r diffiniad yn adran 71), er nad yw'r Comisiynydd yn cael ei atal rhag cynnwys materion eraill yn yr hysbysiad. Mae adrannau eraill yn y Rhan hon o'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad penderfynu gynnwys materion penodol.

Adran 76 - Dim methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol

134. Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu nad yw D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol (a ddiffinnir yn adran 71) gall benderfynu peidio â gweithredu ymhellach neu, ar y llaw arall, gall roi argymhellion neu gyngor i D neu i unrhyw berson arall.

Section 72 – Discontinuing an investigation

128. The Commissioner may, at any time, discontinue an investigation undertaken under section 71. If an investigation is discontinued, the Commissioner must inform each interested person, and inform D of the reasons for reaching the decision.

Section 73 – Determination of investigation

129. Where the Commissioner does not discontinue an investigation, he or she must determine whether or not D has failed to comply with the relevant requirement (see section 71 above). In doing so, the Commissioner must:

- produce an investigation report (as defined by section 74), and provide each interested person with a copy; and
- give D a decision notice, and give a copy to any other interested person.

130. In making a determination under this section, the Commissioner must comply with the requirements imposed by section 85 (consultation before final determination etc).

Section 74 – Investigation reports

131. An investigation report means a report on an investigation under section 71 which includes all of the following:

- the terms of reference of the investigation;
- a summary of the evidence taken during the investigation;
- the Commissioner’s findings on the investigation;
- the Commissioner’s determination on whether or not D has complied with the relevant requirement;
- a statement of whether the Commissioner is taking further action
- if the Commissioner is taking further action, a statement of that action.

132. However the Commissioner may also include other matters in the report.

Section 75 – Decision notices

133. A decision notice means a notice stating the Commissioner’s determination of whether or not D failed to comply with the relevant requirement (defined in section 71), although the Commissioner is not prevented from including other matters in the notice. Other sections within this Part of the Measure also require that the decision notice includes certain matters.

Section 76 – No failure to comply with a relevant requirement

134. Where the Commissioner determines that D has not failed to comply with a relevant requirement (defined in section 71) he or she can decide to take no further action or, alternatively, give recommendations or advice to D or any other person.

135. Mae is-adran (4) yn darparu, os ymchwiliad yn dilyn cwyn (o dan adran 93) a wnaed gan berson sy'n honni i D fethu â chydymffurfio â safon yw ymchwiliad a arweiniodd at y dyfarniad na fu methiant i gydymffurfio, rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod yr hysbysiad penderfynu a roddwyd i'r person a wnaeth y gŵyn yn rhoi gwybod i'r person hwnnw am yr hawl i apelio yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd. Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg o dan adran 99 ar y sail bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol yw'r hawl honno i apelio.
136. Cyn gwneud dyfarniad terfynol ynghylch a yw D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion adran 85.

Adran 77 - Methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol

137. Mae'r adran hon yn rhestru'r opsiynau sydd ar gael i'r Comisiynydd os yw wedi dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol. Caniateir i'r Comisiynydd beidio â gweithredu ymhellach, neu caiff wneud un neu ragor o'r canlynol o dan adran is-adran (3):

- ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu (at y diben yn adran 79);
- ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau (at y diben yn adran 79);
- rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio;
- ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio;
- gosod cosb sifil ar D.

138. O dan is-adran (4), caniateir i'r Comisiynydd roi argymhellion neu gyngor i D neu i unrhyw berson arall neu, os yw D wedi methu â chydymffurfio â safon, wneud cytundeb setlo gyda D. Dydy hi ddim yn ofynnol i D wneud cytundeb o'r fath, ond os bydd D yn gwrthod, mae'r Comisiynydd yn cael arfer ei bwerau o dan yr adran hon yn wahanol. Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion adran 85 hefyd.

Adran 78 - Dim camau gorfodi gosodedig

139. Os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol a'i fod yn penderfynu peidio â gweithredu ymhellach, neu os bydd yn rhoi cyngor neu argymhellion neu'n gwneud cytundeb setlo gyda D o dan adran 77(4), rhaid i'r hysbysiad penderfynu (sydd wedi'i ddiffinio yn adran 75) roi rhesymau'r Comisiynydd dros y penderfyniad. Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion adran 85 hefyd.

Adran 79 - Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu neu i gymryd camau

140. Diben y cynllun gweithredu a'r camau yw atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd.
141. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol a'i fod yn ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau, neu'r ddau, yna mae'n rhaid i'r hysbysiad penderfynu nodi'r hyn y mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i D ei wneud, y terfynau amser o dan sylw, y canlyniadau os na fydd D yn cydymffurfio â'r gofynion yn yr hysbysiad, a rhoi gwybod i D am yr hawl i apelio o dan adran 95 (Apelau i'r Tribiwnlys).

135. Subsection (4) provides that where the investigation that led to the determination of no failure to comply follows a complaint made by a person alleging a failure by D to comply with a standard (under section 93), the Commissioner must ensure that the decision notice provided to the person who made the complaint informs that person of the right to appeal against the Commissioner's determination. That right of appeal is to the Welsh Language Tribunal under section 99 on the ground that D did fail to comply with the relevant requirement.
136. Before making a final determination as to whether D has failed to comply with a relevant requirement the Commissioner must satisfy the requirements of section 85.

Section 77 – Failure to comply with a relevant requirement

137. This section lists the options available to the Commissioner where he or she has determined that D has failed to comply with a relevant requirement. The Commissioner may take no further action, or he or she may do one or more of the following under subsection (3):

- require D to prepare an action plan (for the purpose in section 79);
- require D to take steps (for the purpose in section 79);
- publicise D's failure to comply;
- require D to publicise the failure to comply;
- impose a civil penalty on D.

138. Under subsection (4) the Commissioner is permitted to give recommendations or advice to D or any other person or, if D has failed to comply with a standard, to enter into a settlement agreement with D. D is not obliged to enter into such an agreement, but if D declines the Commissioner is permitted to exercise his or her powers under this section differently. The Commissioner must also satisfy the requirements of section 85.

Section 78 – No imposed enforcement action

139. If the Commissioner determines that D has failed to comply with the relevant requirement and decides not to take further action, or gives advice or recommendations or enters into a settlement agreement with D under section 77(4), the decision notice (defined in section 75) must give the Commissioner's reasons for the decision. The Commissioner must also satisfy the requirements of section 85.

Section 79 – Requirement to prepare action plan or take steps

140. The purpose of the action plan and the steps is to prevent the continuation or repetition of D's failure to comply with the relevant requirement.
141. If the Commissioner determines that D has failed to comply with a relevant requirement and requires D to prepare an action plan or to take steps, or both, then the decision notice must set out what the Commissioner requires D to do, the time limits involved, the consequences if D doesn't comply with requirements in the notice, and must inform D of the right to appeal under section 95 (Appeals to the Tribunal).

Adran 80 - Cynlluniau gweithredu

142. Pan fo'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gweithredu gael ei baratoi, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd gymeradwyo'r cynllun drafft cyntaf, neu ofyn am gynllun drafft diwygiedig os nad yw'r drafft yn ddigonol. Caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun drafft cyntaf neu gynllun drafft diwygiedig gael ei roi iddo yn unol â'r gorchymyn.
143. Mae cynllun gweithredu'n dod i rym –
- chwe wythnos ar ôl i ddrafft cyntaf neu ddrafft diwygiedig gael ei roi i'r Comisiynydd, (os nad yw'r Comisiynydd yn dyroddi hysbysiad sy'n datgan nad yw'r drafft yn ddigonol gan ofyn am ddrafft diwygiedig, neu nad yw'r Comisiynydd yn gwneud cais i lys am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafft diwygiedig pellach gael ei baratoi), neu
 - os yw'r Comisiynydd yn gwneud cais i lys am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafft diwygiedig pellach gael ei baratoi, ar yr adeg pan fo llys yn gwrthod gwneud y gorchymyn.
144. Caniateir i gynllun gweithredu gael ei amrywio drwy gytundeb rhwng y Comisiynydd a'r person a'i paratôdd.

Adran 81 - Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio

145. Mae'r adran hon yn esbonio'r hyn a olygir pan fo'r Mesur yn crybwyll bod y Comisiynydd neu D yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio.
146. Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio drwy gyhoeddi datganiad bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu drwy gyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad mewn perthynas â'r ymchwiliad i D, neu'r ddau.
147. Pan fo'n ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol, mae'n ofynnol iddo roi cyhoeddusrwydd i unrhyw rai neu'r cyfan o'r canlynol: datganiad bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol, yr adroddiad ar yr ymchwiliad a gynhyrchwyd, neu wybodaeth arall am fethiant D i gydymffurfio.

Adran 82 - Ei gwneud yn ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio

148. Pan fo'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol a'i fod yn penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D neu ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant, rhaid i'r hysbysiad penderfynu nodi'r hyn y mae'r Comisiynydd i'w wneud neu'r hyn y mae'n ei gwneud yn ofynnol i D ei wneud. Yn ychwanegol, rhaid i'r hysbysiad penderfynu roi gwybod i D am ganlyniadau peidio â chydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad ac am hawl D i apelio o dan adran 95. Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion adran 85 hefyd.

Section 80 – Action plans

142. Where the Commissioner gives D a decision notice requiring the preparation of an action plan, this section allows the Commissioner to approve the first draft plan, or to require a revised draft plan where the draft is not adequate. The Commissioner may apply to a county court for an order requiring that a first draft plan or revised draft plan is given to him or her in accordance with the order.
143. An action plan comes into force –
- 6 weeks after a first or revised draft action plan is given to the Commissioner, (if the Commissioner does not issue a notice stating that the draft is not adequate and requiring a revised draft to be prepared, or does not apply to court for an order requiring a further revised draft plan to be prepared), or
 - if the Commissioner does apply to court for an order requiring a further revised draft plan to be prepared, upon the court declining to make that order.
144. An action plan may be varied by agreement between the Commissioner and the person who prepared it.

Section 81 – Publicising the failure to comply

145. This section explains what is meant when the Measure refers to the Commissioner or D publicising D's failure to comply.
146. The Commissioner publicises D's failure to comply by publishing a statement the D has failed to comply with the relevant requirement or publishing the investigation report in relation to the investigation of D, or both.
147. When D is required to publicise his or her failure to comply with the relevant requirements he or she is being required to publicise any or all of the following: a statement that D has failed to comply with the relevant requirement, the investigation report produced, or other information relating to D's failure to comply.

Section 82 – Requiring the failure to comply to be publicised

148. Where the Commissioner determines that D has failed to comply with a relevant requirement and decides either to publicise D's failure or require D to publicise the failure, the decision notice must set out what the Commissioner is to do or what the Commissioner requires D to do. In addition the decision notice must inform D of the consequences of not complying with a requirement in the notice and of D's right to appeal under section 95. The Commissioner must also satisfy the requirements of section 85.

Adran 83 - Cosbau sifil

149. Wrth ddyfarnu a ddylai osod cosb sifil ar unrhyw berson, a swm unrhyw gosb sifil, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i ba mor ddifrifol yw'r mater y mae'r gosb yn cael ei gosod amdano, amgylchiadau'r person y mae'r gosb i'w gosod arno, a'r angen i atal y methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol rhag parhau neu ddigwydd eto. Dydy'r Comisiynydd ddim yn cael ei atal rhag rhoi sylw i faterion eraill.
150. Mae'r adran hon hefyd yn pennu uchafswm cosb sifil.

Adran 84 - Rhoi cosb sifil

151. Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, a'i fod yn penderfynu gosod cosb sifil, mae'n rhaid i'r hysbysiad penderfynu nodi'r gosb sifil, sut y gall gael ei thalu, ac o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid iddi gael ei thalu (sy'n gorfod bod yn gyfnod o nid llai nag 28 diwrnod). Mae'n rhaid hefyd i'r hysbysiad roi gwybod i D am y canlyniadau os na fydd D yn ei thalu, ac am hawl D i apelio o dan adran 95. Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion adran 85 hefyd.

Adran 85 - Ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol etc

152. Mae'r adran hon yn gymwys os bydd y Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 71. Cyn dyfarnu'n derfynol a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu beidio, rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad o ddyfarniad arfaethedig y Comisiynydd i bob person sydd â buddiant.
153. Cyn penderfynu'n derfynol pa gamau i'w cymryd, os yw am gymryd camau o gwbl, o dan is-adran (3) mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad i bob person sydd â buddiant i ddweud a yw'r Comisiynydd yn bwriadu cymryd camau neu beidio, hysbysiad o unrhyw gamau arfaethedig, datganiad o'r rhesymau dros fwriadu cymryd y camau hynny, a chopiau o'r hysbysiad penderfynu drafft y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei ddyroddi.
154. Cyn setlo'r adroddiad ar yr ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd roi drafft i bob person sydd â buddiant yn yr adroddiad arfaethedig ar yr ymchwiliad, gan roi cyfle i D ac unrhyw berson arall sydd â buddiant gyflwyno sylwadau am y dyfarniad neu'r adroddiad arfaethedig ar yr ymchwiliad. Mae D hefyd yn cael cyflwyno sylwadau ynghylch y cynigion sydd wedi'u rhestru yn is-adran (3).
155. Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau wedi'u gwneud gan D neu gan unrhyw berson arall sydd â buddiant cyn gwneud unrhyw beth y mae'r sylwadau'n cyfeirio ato. Y Comisiynydd sy'n pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, ond rhaid iddo beidio â bod yn llai nag 28 diwrnod.

Adran 86 - Ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol yn dilyn apêl

156. Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Tribiwnlys yn cyfarwyddo'r Comisiynydd, yn dilyn apêl o dan adran 99 neu adran 101, neu'n dilyn unrhyw apêl arall, i benderfynu o dan adran 73 fod D wedi methu â chydymffurfio â safon.

Section 83 – Civil penalties

149. When determining whether to impose a civil penalty on any person, and the amount of any civil penalty, the Commissioner must have regard to the seriousness of the matter for which the penalty is being imposed, the circumstances of the person against whom the penalty is to be imposed, and the need to prevent the continuation or repetition of the failure to comply with a relevant requirement. The Commissioner is not prevented from having regard to other matters.
150. This section also sets the maximum amount of a civil penalty.

Section 84 – Imposition of civil penalty

151. If the Commissioner determines that D has failed to comply with a relevant requirement, and decides to impose a civil penalty, the decision notice must set out the civil penalty, how it may be paid, and the period (which must be a period of not less than 28 days) within which it must be paid. The notice must also inform D of the consequences if D does not pay it, and of D's right to appeal under section 95. The Commissioner must also satisfy the requirements of section 85.

Section 85 – Consultation before final determination etc

152. This section applies if the Commissioner conducts an investigation under section 71. Before finally determining whether or not D has failed to comply with the relevant requirement, the Commissioner must give each interested person notice of the Commissioner's proposed determination.
153. Before finally deciding what, if any, action to take, under subsection (3) the Commissioner must give each interested person notice of whether or not the Commissioner is proposing to take further action, notice of any proposed action, a statement of the reasons for proposing to take any such action, and copies of the draft decision notice the Commissioner is proposing to issue.
154. Before settling the investigation, the Commissioner must give each interested person a draft of the proposed investigation report and give D and any other interested person an opportunity to make representations about the determination or the proposed investigation report. D may also make representations about the proposals listed in subsection (3).
155. The Commissioner must have due regard to any representations made by D or any other interested person before doing anything to which the representations relate. The period for making representations is determined by the Commissioner but must not be less than 28 days.

Section 86 – Consultation before final determination following an appeal

156. This section applies if, following an appeal under sections 99 or 101, or following any further appeal, the Commissioner is directed by the Tribunal to determine under section 73 that D has failed to comply with a standard.

157. Cyn penderfynu'n derfynol pa gamau i'w cymryd, os cymryd camau o gwbwl, ar sail y dyfarniad, rhaid i'r Comisiynydd, mewn perthynas â phob person a chanddo fuddiant, fodloni gofynion is-adrannau (2)(a) i (c).
158. Cyn setlo'r adroddiad ar ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd roi i bob person a chanddo fuddiant ddrafft o'r adroddiad arfaethedig ar ymchwiliad a rhoi i D ac unrhyw berson arall a chanddo fuddiant gyfle i wneud sylwadau. Yn achos D, caiff D wneud sylwadau ynghylch y cynigion y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2) a (3) ac yn achos unrhyw berson arall a chanddo fuddiant, caiff y person hwnnw wneud sylwadau ynghylch y cynigion y cyfeirir atynt yn is-adran (3).
159. Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau a wnaed gan D neu gan unrhyw berson arall a chanddo fuddiant cyn gwneud unrhyw beth y mae'r sylwadau'n ymwneud â hwy. Bydd y Comisiynydd yn penderfynu beth fydd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau ond rhaid i'r cyfnod beidio â bod yn llai na 28 o ddiwrnodau.
160. Mae "person a chanddo fuddiant" mewn perthynas ag ymchwiliad gan y Comisiynydd i'r cwestiwn a yw D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol yn cynnwys D a, phan fydd yr ymchwiliad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, y person a wnaeth y gŵyn.

Adran 87 - Yr adeg y bydd camau gorfodi yn dod yn effeithiol

161. Mae'r adran hon yn nodi beth sy'n digwydd os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D sy'n nodi'r camau gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu eu cymryd.
162. Ar ddiwedd y cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 95, mae'r camau gorfodi'n dod yn effeithiol ac mae'n rhaid i D baratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau, rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio, neu dalu cosb sifil, yn unol â gofynion yr hysbysiad penderfynu, a chaiff y Comisiynydd roi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio.
163. Serch hynny, os bydd apêl yn cael ei gwneud i'r Tribiwnlys, dydy'r camau gorfodi ddim yn dod yn effeithiol nes i'r apêl honno ac unrhyw apêl arall ddod i ben, ac ni chaniateir i apêl arall gael ei gwneud, neu ddim ond gyda chaniatâd Tribiwnlys neu lys y caniateir i apêl arall gael ei gwneud.

Adran 88 - Methiant i gydymffurfio â gofyniad i gymryd camau

164. Pan fo hysbysiad penderfynu yn ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D gymryd y camau hynny.
165. Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd yr hysbysiad penderfynu ei roi.

157. Before finally deciding what, if any, action to take based on the determination, the Commissioner must, in relation to each interested person, satisfy the requirements of subsections (2)(a) to (c).
158. Before settling the investigation report, the Commissioner must give each interested person a draft of the proposed investigation report and give D and any other interested person an opportunity to make representations. In the case of D, D may make representations about the proposals referred to in subsections (2) and (3) and in the case of any other interested person, they may make representations about the proposals referred to in subsection (3).
159. The Commissioner must have due regard to any representations made by D or any other interested person before doing anything to which the representations relate. The period for making representations is determined by the Commissioner but must not be less than 28 days.
160. An “interested person” in relation to an investigation by the Commissioner into whether D has failed to comply with a relevant requirement includes D and, where the investigation follows a complaint made under section 93, the person who made the complaint.

Section 87 – When enforcement action takes effect

161. This section sets out what happens if the Commissioner gives D a decision notice setting out the enforcement action the Commissioner has decided to take.
162. At the end of the 28 day period for making an appeal to the Tribunal under section 95, enforcement takes effect and D must prepare an action plan or take steps, publicise a failure to comply, or pay a civil penalty, as required by the decision notice, and the Commissioner may publicise D’s failure to comply.
163. However, if an appeal is made to the Tribunal, enforcement does not take effect until that appeal and any further appeal has been disposed of, and a further appeal may not be made, or may be made only with a Tribunal or a court’s permission.

Section 88 – Failure to comply with requirement to take steps

164. Where a decision notice requires D to take steps, this section allows the Commissioner to apply to a county court for an order requiring D to take those steps.
165. The Commissioner may apply to the court during a five year period beginning with the day when the decision notice was issued.

Adran 89 - Methiant i gydymffurfio â chynllun gweithredu

166. Pan fo D wedi paratoi cynllun gweithredu yn unol â'r gofynion yn yr hysbysiad penderfynu, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â'r cynllun gweithredu.
167. Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r cynllun gweithredu i rym.

Adran 90 - Methiant i gydymffurfio â gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio

168. Pan fo hysbysiad penderfynu yn ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr hysbysiad.
169. Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd yr hysbysiad penderfynu ei roi.

Adran 91 - Cytundebau setlo

170. Mae'r adran hon yn esbonio'r hyn a olygir pan fo'r Mesur yn cyfeirio at gytundeb setlo rhwng y Comisiynydd a pherson (y cyfeirir ato fel D) mewn perthynas â methiant D i gydymffurfio â safon.
171. Mae cytundeb setlo yn cynnwys ymrwymiad gan D:
- i beidio â methu â chydymffurfio ag un neu ragor o safonau;
 - i gymryd camau penodol;
 - i ymatal rhag cymryd camau penodol

ac ymrwymiad gan y Comisiynydd i beidio â chymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r methiant.

172. Caiff y cytundeb setlo gynnwys darpariaeth arall ac mae hefyd yn gallu cael ei amrywio neu ei derfynu drwy gytundeb y Comisiynydd a D. Serch hynny, dydy gwneud cytundeb setlo ddim yn golygu bod D wedi cyfaddef i'r methiant.

Adran 92 - Methiant i gydymffurfio â chytundeb setlo

173. Caniateir i'r Comisiynydd wneud cais i'r llys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â chytundeb setlo. Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r cytundeb setlo'n cael ei wneud.

Adran 93 - Ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwyn ynghylch ymddygiad

174. Pan fo person (y cyfeirir ato fel "P") yn gwneud cwyn ddilys i'r Comisiynydd ynghylch ymddygiad D, mae'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad o dan adran 71 ynghylch a yw D wedi methu â chydymffurfio â safon.

Section 89 – Failure to comply with action plan

166. Where D has prepared an action plan as required in the decision notice, this section allows the Commissioner to apply to a county court for an order requiring D to comply with the action plan.
167. The Commissioner may apply to the court during a five year period beginning with the day when the action plan comes into force.

Section 90 – Failure to comply with requirement to publicise failure to comply

168. Where a decision notice requires D to publicise a failure to comply, this section allows the Commissioner to apply to a county court for an order requiring D to publicise the failure as stated in the notice.
169. The Commissioner may apply to the court during a five year period beginning with the day when the decision notice was given.

Section 91 – Settlement agreements

170. This section explains what is meant when the Measure refers to a settlement agreement between the Commissioner and a person (referred to as “D”) in relation to D’s failure to comply with a standard.
171. A settlement agreement contains an undertaking by D:
- not to fail to comply with one or more standards;
 - to take particular action;
 - to refrain from taking particular action

and an undertaking by the Commissioner not to take enforcement action in respect of the failure.

172. The settlement agreement may include other provision and may also be varied or terminated by agreement of the Commissioner and D. However, entering into a settlement agreement does not mean that D has admitted the failure.

Section 92 – Failure to comply with settlement agreement

173. The Commissioner is permitted to apply to a county court for an order requiring D to comply with a settlement agreement. The Commissioner may apply to the court during a five year period beginning with the day when the settlement agreement is entered into.

Section 93 – Consideration of whether to investigate if conduct complained about

174. The Commissioner is under a duty to consider whether to carry out an investigation under section 71 into whether D has failed to comply with a standard where a person (referred to as “P”) makes a valid complaint to the Commissioner about D’s conduct.

175. I fod yn gŵyn ddilys, rhaid i'r amodau yn is-adrannau (3) i (6) gael eu bodloni. Hyd yn oed os yw'r gŵyn yn un ddilys, does dim dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad o dan yr amgylchiadau sydd wedi'u rhestru yn is-adran (7).
176. Serch hynny, o dan amgylchiadau pan nad yw'r gŵyn yn bodloni pob un o'r amodau ar gyfer cwyn ddilys, neu pan fo is-adran (7) yn gymwys, mae gan y Comisiynydd y disgresiwn i ystyried a ddylai gynnal yr ymchwiliad.
177. Os gwneir cwyn o dan yr adran hon gan berson sy'n gweithredu ar ran person arall, mae is-adran (9) yn sicrhau bod cyfeiriad at y person a wnaeth y gŵyn (gan gynnwys achos pan gyfeirir at y person hwnnw fel "P"), yn narpariaethau'r Mesur hwn sy'n ymwneud ag apelau neu apelau eraill sy'n gysylltiedig â'r gŵyn, i'w ddarllen fel cyfeiriad at y person arall hwnnw (ac nid fel cyfeiriad at y person a wnaeth y gŵyn ar ran y person arall hwnnw).

Adran 94 - Hysbysiad os nad oes ymchwiliad etc

178. Pan fo'r Comisiynydd, ac yntau wedi cael cwyn gan P o dan adran 93, yn gwneud penderfyniad sy'n dod o fewn unrhyw un o'r pum achos a restrir isod, mae'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i hysbysu P o'r penderfyniad, y rhesymau dros y penderfyniad ac o'r hawl i wneud cais i'r Tribiwnlys o dan adran 103 am gael adolygiad o'r penderfyniad.

- Achos 1: dyma achos pan fo cwyn sy'n bodloni'r amodau yn adran 93(3) i (6) yn cael ei gwneud a phan fo'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad, ond yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad.
- Achos 2: dyma achos pan nad yw'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad gan fod y gŵyn yn un o fath sy'n dod o fewn adran 93(7), a phan fo'r Comisiynydd yn gwneud y penderfyniad i beidio ag ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad.
- Achos 3: dyma achos pan wneir cwyn, a phan fo'r Comisiynydd yn penderfynu nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad yn gymwys.
- Achos 4: dyma achos pan wneir cwyn a phan nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad ai peidio i'r ymddygiad honedig yn gymwys a phan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig o dan adran 93(8) neu, ar ôl ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad o dan yr adran honno, yn penderfynu peidio â chynnal yr ymchwiliad.
- Achos 5: dyma achos pan wneir cwyn a phan fo'r Comisiynydd, ac yntau'n wreiddiol wedi penderfynu cynnal ymchwiliad, wedyn yn penderfynu peidio â pharhau â'r ymchwiliad.

Adran 95 - Apelau i'r Tribiwnlys

179. Mewn amgylchiadau pan fo'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 71 ac yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, mae adran 95 yn darparu ffordd i D i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y dyfarniad hwnnw yn ogystal ag yn erbyn unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan y Comisiynydd mewn cysylltiad â methiant D i gydymffurfio.

175. To be a valid complaint, the conditions in subsections (3) to (6) must be met. Even if the complaint is valid, the Commissioner is not under a duty to consider whether to carry out an investigation in the circumstances listed in subsection (7).
176. However, in circumstances where the complaint does not satisfy all of the conditions for a valid complaint, or where subsection (7) applies, the Commissioner has the discretion to consider whether to carry out the investigation.
177. Subsection (9) ensures that if a complaint is made under this section by a person acting on behalf of another, in the provisions of this Measure which relate to appeals or further appeals connected with the complaint, a reference to the person who made the complaint (including a case where that person is referred to as "P") is to be read as a reference to that other person (and not as a reference to the person who made the complaint on that other person's behalf).

Section 94 - Notification if no investigation etc

178. Where the Commissioner, having received a complaint from P under section 93, makes a decision that is a decision falling within any of the five cases listed below, the Commissioner is under a duty to notify P of the decision, the reasons for the decision and of the right to apply to the Tribunal under section 103 to review the decision.
- Case 1 is a case where a complaint which satisfies the conditions in section 93(3)-(6) is made and the Commissioner is under a duty to consider whether to carry out an investigation but decides not to carry out an investigation.
 - Case 2 is a case where the Commissioner is not under a duty to consider whether to carry out an investigation as the complaint is of a kind that falls within section 93(7) and the Commissioner makes the decision not to consider whether to carry out an investigation.
 - Case 3 is a case where a complaint is made and the Commissioner decides that the duty under section 93 to consider whether to carry out an investigation does not apply.
 - Case 4 is a case where a complaint is made and the duty under section 93 to consider whether to carry out an investigation of the alleged conduct does not apply and the Commissioner decides not to consider whether to carry out an investigation of the alleged conduct under section 93(8) or, having considered whether to carry out an investigation under that section, decides not to carry out the investigation.
 - Case 5 is a case where a complaint is made and the Commissioner having originally decided to carry out an investigation then decides to discontinue the investigation.

Section 95 - Appeals to the Tribunal

179. In circumstances where the Commissioner undertakes an investigation under section 71 and determines that D has failed to comply with a relevant requirement, section 95 provides D with a route of appeal to the Tribunal against that determination as well as against any enforcement action taken by the Commissioner in connection with D's failure to comply.

180. Mae apêl D i'r Tribiwnlys ar y sail na fu methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol yn ddarostyngedig i is-adran (3) sy'n atal D rhag apelio os yw cyfarwyddyd a roddwyd gan y Tribiwnlys yn dilyn apêl gan P o dan adran 99 neu 101, neu unrhyw apêl bellach, wedi arwain at ddyfarniad y Comisiynydd bod methiant i gydymffurfio wedi bod.
181. Caniateir gwneud apêl yn erbyn unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan y Comisiynydd mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol ar y sail bod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur.
182. Caiff D apelio yn erbyn y dyfarniad bod methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol wedi bod yn ogystal ag yn erbyn camau gorfodi a gymerir gan y Comisiynydd. Rhaid i apelau gael eu gwneud o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu sy'n ofynnol o dan adran 73 i D. Caiff y Tribiwnlys dderbyn apelau ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau os bydd D yn gwneud cais ysgrifenedig iddo a bod y Tribiwnlys wedi'i fodloni bod rheswm da dros fethu ag apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thros yr oedi (os oes oedi wedi bod) cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol.

Adran 96 - Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl

183. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y caiff y Tribiwnlys ei wneud mewn perthynas â dyfarniad y Comisiynydd neu â chamau gorfodi'r Comisiynydd. Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D a'r Comisiynydd o'i benderfyniad ar apêl o dan adran 95.
184. Mae i unrhyw benderfyniad sy'n cael ei gymryd gan y Tribiwnlys ynghylch apêl yr un effaith, a gall gael ei orfodi yn yr un ffordd, â dyfarniad gan y Comisiynydd.

Adran 97 - Apelau o'r Tribiwnlys

185. Pan fo'r Tribiwnlys wedi penderfynu ar apêl, caiff y Comisiynydd, D neu, mewn achosion pan fo P wedi gwneud cais llwyddiannus i gael ei ychwanegu'n barti yn achos y Tribiwnlys, P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad y Tribiwnlys.
186. Os bydd yr Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol, caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r neilltu. Os caiff yr achos ei osod o'r neilltu, rhaid i'r Uchel Lys naill ai ail-wneud y penderfyniad neu anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'i ailstyried.
187. Mae is-adrannau (4) a (5) yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfarwyddiadau y caiff yr Uchel Lys eu rhoi i'r Tribiwnlys ac ynghylch pwerau'r Uchel Lys pan fydd yn ail-wneud penderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys.

180. Ds appeal to the Tribunal on the grounds that there was no failure to comply with the relevant requirement is subject to subsection (3) which prevents D from appealing if the Commissioner's determination of a failure to comply is reached as a result of a direction given by the Tribunal following an appeal by P under section 99 or 101, or any further appeal. .
181. An appeal against any enforcement action taken by the Commissioner in connection with a failure to comply with a relevant requirement may be made on the grounds that the enforcement action is unreasonable or disproportionate.
182. D may appeal both against the determination of a failure to comply with a relevant requirement as well as against the enforcement action taken by the Commissioner. Appeals must be made within a period of 28 days beginning with the day on which the Commissioner gives D the decision notice required by section 73. The Tribunal may accept appeals after the 28 day period if D makes a written application and the Tribunal is satisfied that there is a good reason for the failure to appeal before the end of that period, and for the delay (if any) in applying for permission to appeal out of time.

Section 96 – Powers of Tribunal on appeal

183. This section sets out what the Tribunal may do in relation to the Commissioner's determination or the Commissioner's enforcement action. The Tribunal must notify D and the Commissioner of its decision on an appeal under section 95.
184. Any decision taken by the Tribunal relating to an appeal has the same effect and may be enforced in the same way as a determination of the Commissioner.

Section 97 – Appeals from Tribunal

185. Where the Tribunal has decided an appeal the Commissioner, D or, in cases where P has successfully applied to be added as a party to the Tribunal's proceedings, P, may, with the permission of the Tribunal or High Court, appeal to the High Court on a question of law arising out of the Tribunal's decision.
186. If the High Court finds that the Tribunal has made an error on a point of law, the High Court may set aside the decision of the Tribunal. If the case is set aside, the High Court must either remake the decision or remit the case to the Tribunal with directions for its reconsideration.
187. Subsections (4) and (5) make provision about the directions that the High Court may give to the Tribunal and the High Court's powers when remaking a decision made by the Tribunal.

188. Rhaid gwneud cais i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio a hynny cyn pen cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o benderfyniad y Tribiwnlys ar yr apêl o dan adran 95. Mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys y disgresiwn i ganiatáu i apelau gael eu gwneud ar ôl y cyfnod hwnnw os yw wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i wneud cais am ganiatâd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ac, os oes oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw).

Adran 98 - Dyletswydd y Comisiynydd ar apêl

189. Mewn amgylchiadau pan yw'r Comisiynydd wedi ymchwilio i fethiant honedig gan D i gydymffurfio â safon yn dilyn cwyn a wnaed gan berson o dan adran 93 a phan wneir apêl o dan adran 95 neu 97, neu unrhyw apêl bellach, mewn perthynas â'r ymchwiliad a phan nad yw P yn barti yn yr achos hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â'r gofynion a geir yn is-adran (2).
190. Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael gwybod, hysbysu'r person sydd wedi gwneud y gŵyn ynghylch:
- canlyniad apêl o dan adran 95;
 - y ffaith bod apêl o dan adran 97 (neu unrhyw apêl bellach) wedi'i gwneud; a
 - canlyniad apêl o dan adran 97 (neu unrhyw apêl bellach).

Adran 99 - Hawl P i apelio

191. Mae'r adran hon yn darparu hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd, yn dilyn ymchwiliad, na fu methiant i gydymffurfio â safon. Dim ond person ("P") gaiff wneud yr apêl honno, a hynny mewn amgylchiadau pan fo'i gŵyn i'r Comisiynydd o dan adran 93 ynghylch methiant honedig gan berson ("D") i gydymffurfio â safon, wedi arwain at ymchwiliad a'r dyfarniad dilynol na fu methiant i gydymffurfio.
192. Caiff P apelio ar y sail bod D wedi methu â chydymffurfio â safon. Rhaid gwneud apelau o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi i P yr hysbysiad penderfynu mewn perthynas â gofynion adran 73. Caiff y Tribiwnlys dderbyn apelau ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau os yw P yn gwneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys a bod y Tribiwnlys wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thros yr oedi (os oes oedi wedi bod) cyn ceisio am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol.

Adran 100 - Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl gan P

193. Mae'r adran hon yn darparu y gall y Tribiwnlys, os daw apêl o dan adran 99 i law, naill ai cadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd. Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd, rhaid i'r Tribiwnlys gyfarwyddo'r Comisiynydd i benderfynu o dan adran 73 fod D wedi methu â chydymffurfio â'r safon.

188. An application for permission to appeal must be made to the Tribunal or High Court within a period of 28 days beginning on the day when the Tribunal notified the person making the application of its decision on the appeal under section 95. The Tribunal or High Court have the discretion to allow appeals to be made after that period if they are satisfied that there is a good reason for the failure to apply for permission before the end of the 28 day period and, if there has been a delay in applying for permission to appeal out of time, for that delay.

Section 98 – Commissioner’s duty on an appeal

189. In circumstances where the Commissioner has investigated an alleged failure by D to comply with a standard following a complaint made by a person under section 93 and an appeal under section 95 or 97, or any further appeal, is made in relation to the investigation and P is not a party to those proceedings, the Commissioner must comply with the requirements set out in subsection (2).
190. Subsection (2) provides that the Commissioner must, as soon as is reasonably practicable after being informed, notify the person who has made the complaint of:
- the outcome of an appeal under section 95;
 - the fact that an appeal under section 97 (or any further appeal) has been made; and
 - the outcome of an appeal under section 97 (or any further appeal).

Section 99 – Right of appeal by P

191. This section provides a right to appeal to the Tribunal against a determination by the Commissioner of no failure to comply with a standard, following an investigation. That appeal is available only to a person (“P”) whose complaint under section 93 to the Commissioner about an alleged failure by a person (“D”) to comply with a standard led to the investigation that resulted in the subsequent determination of no failure to comply.
192. P may appeal on the grounds that D did fail to comply with a standard. Appeals must be made within a period of 28 days beginning with the day on which the Commissioner gives P the decision notice in relation to the investigation in accordance with the requirements of section 73. The Tribunal may accept appeals after the 28 days if P makes a written application to it and if it is satisfied that there is a good reason for the failure to appeal before the end of that period, and for the delay (if any) in applying for permission to appeal out of time.

Section 100 – Powers of Tribunal on appeal by P

193. This section provides that, on an appeal under section 99, the Tribunal can either affirm or annul the Commissioner’s determination. If the Tribunal annuls the Commissioner’s determination, the Tribunal must direct the Commissioner to determine under section 73 that D has failed to comply with the standard.

Adran 101 - Apelau o'r Tribiwnlys

194. Mae'r adran hon yn darparu ffordd i'r Comisiynydd, i P neu, mewn achosion pan fo D wedi gwneud cais llwyddiannus i gael ei ychwanegu'n barti mewn achos, i D, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad y Tribiwnlys yn dilyn apêl gan P.
195. Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol, caiff yr Uchel Lys roi penderfyniad y Tribiwnlys o'r neilltu. Os rhoddir yr achos o'r neilltu, rhaid i'r Uchel Lys naill ai ail-wneud y penderfyniad neu anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'i ailystyried.
196. Mae is-adrannau (4) a (5) yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfarwyddiadau y caiff yr Uchel Lys eu rhoi i'r Tribiwnlys ac ynghylch pwerau'r Uchel Lys pan fydd yn ail-wneud penderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys.
197. Rhaid gwneud cais i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio, a hynny o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i benderfyniad ar yr apêl o dan adran 99. Mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys y disgresiwn i ganiatáu i apelau gael eu gwneud ar ôl y cyfnod hwnnw os ydynt wedi'u bodloni bod rheswm da dros y methiant i geisio am ganiatâd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ac, os oes oedi wedi bod cyn ceisio am ganiatâd i apelio ar ôl y cyfnod priodol, dros yr oedi hwnnw.

Adran 102 - Dyletswydd y Comisiynydd pan wneir apêl gan P

198. Mewn amgylchiadau pan fydd y Comisiynydd wedi ymchwilio i fethiant honedig gan D i gydymffurfio â safon yn dilyn cwyn a wnaed gan berson o dan adran 93 a phan wneir apêl o dan adran 99 neu 101, neu unrhyw apêl bellach, mewn perthynas â'r ymchwiliad a phan nad yw D yn barti yn yr achos hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â'r gofynion a geir yn is-adran (2).
199. Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd hysbysu D, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael gwybod:
- am ganlyniad apêl o dan adran 99;
 - am y ffaith bod apêl o dan adran 101 (neu unrhyw apêl bellach) wedi'i gwneud; ac
 - am ganlyniad apêl o dan adran 101 (neu unrhyw apêl bellach).

Adran 103 - Hawl P i gael adolygiad

200. Mae'r adran hon yn darparu bod gan berson sydd wedi gwneud cwyn o dan adran 93 ("P") yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn gofyn i'r Tribiwnlys adolygu un o benderfyniadau'r Comisiynydd sy'n dod o fewn unrhyw un o'r pum achos a bennir yn is-adrannau (5) i (9).
- Achos 1: dyma achos pan wneir cwyn sy'n bodloni'r amodau yn adran 93(3) i (6) a phan fo'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad ai peidio ond pan fo'n penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad.
 - Achos 2: dyma achos pan nad yw'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad ai peidio gan fod y gwyn yn un o fath

Section 101 – Appeals from Tribunal

194. This section provides the Commissioner, P or, in cases where D has successfully applied to be added as a party to proceedings, D, with a route of appeal to the High Court on a point of law arising out of the Tribunal’s decision following an appeal by P.
195. If the High Court finds that the Tribunal has made an error on a point of law, the High Court may set aside the decision of the Tribunal. If the case is set aside, the High Court must either remake the decision or remit the case to the Tribunal with directions for its reconsideration.
196. Subsections (4) and (5) make provision about the directions that the High Court may give to the Tribunal and the High Court’s powers when remaking a decision made by the Tribunal.
197. An application for permission to appeal must be made to the Tribunal or High Court within a period of 28 days beginning on the day when the Tribunal notified the person making the application of its decision on the appeal under section 99. The Tribunal or High Court have the discretion to allow appeals to be made after that period if they are satisfied that there is a good reason for the failure to apply for permission before the end of the 28 day period and, if there has been a delay in applying for permission to appeal out of time, for that delay.

Section 102 – Commissioner’s duty on an appeal by P

198. In circumstances where the Commissioner has investigated an alleged failure by D to comply with a standard following a complaint made by a person under section 93 and an appeal under section 99 or 101, or any further appeal, is made in relation to the investigation and D is not a party to those proceedings, the Commissioner must comply with the requirements set out in subsection (2).
199. Subsection (2) provides that the Commissioner must, as soon as is reasonably practicable after being informed, notify D of:
- the outcome of an appeal under section 99;
 - the fact that an appeal under section 101 (or any further appeal) has been made; and
 - the outcome of an appeal under section 101 (or any further appeal).

Section 103 – P’s right of review

200. This section provides a person who has made a complaint under section 93 (“P”), with the right to apply to the Tribunal for the Tribunal to review a decision of the Commissioner which falls within any of the five cases specified in subsections (5) to (9).
- Case 1 is a case where a complaint which satisfies the conditions in section 93(3)-(6) is made and the Commissioner is under a duty to consider whether to carry out an investigation but decides not to carry out an investigation.
 - Case 2 is a case where the Commissioner is not under a duty to consider whether to carry out an investigation as the complaint is of a kind that falls within section 93(7) and the Commissioner makes the decision not to consider whether to carry out an investigation.

sy'n dod o fewn adran 93(7) a phan fo'r Comisiynydd yn gwneud penderfyniad i beidio ag ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad.

- Achos 3: dyma achos pan wneir cwyn a phan fo'r Comisiynydd yn penderfynu nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad ai peidio yn gymwys.
- Achos 4: dyma achos pan wneir cwyn a phan nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad ai peidio i'r ymddygiad honedig yn gymwys a phan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig o dan adran 93(8) neu, ac yntau wedi ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad o dan yr adran honno, yn penderfynu peidio â chynnal yr ymchwiliad.
- Achos 5: dyma achos pan wneir cwyn a phan fo'r Comisiynydd, ac yntau'n wreiddiol wedi penderfynu cynnal ymchwiliad, wedyn yn penderfynu peidio â pharhau â'r ymchwiliad.

201. I wneud cais, rhaid i P gael caniatâd y Tribiwnlys. Rhaid rhoi caniatâd pan fo'r Tribiwnlys o'r farn ei bod yn rhesymol disgwyl i'r cais fod yn llwyddiannus neu pan fo rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.
202. Rhaid i'r Tribiwnlys ymdrin â chais am adolygiad fel pe bai'n gais am adolygiad barnwrol a wnaed i'r Uchel Lys. Fodd bynnag, os gwneir cais am adolygiad, gall y Tribiwnlys, o dan adran 104, naill ai cadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd.
203. Rhaid gwneud ceisiadau am adolygiad o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi i P hysbysiad o'i benderfyniad o dan adran 94. Caiff y Tribiwnlys dderbyn ceisiadau ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau os yw P yn gwneud cais ysgrifenedig ac os yw'r Tribiwnlys wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thros yr oedi (os oes oedi wedi bod) cyn ceisio am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol.

Adran 104 - Pwerau'r Tribiwnlys ar adolygiad

204. Os gwneir cais am adolygiad, mae'r adran hon yn darparu y gall y Tribiwnlys naill ai cadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd. Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd, rhaid i'r Tribiwnlys anfon yr achos yn ôl i'r Comisiynydd gyda chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'i ailystyried.

Adran 105 - Apelau o'r Tribiwnlys

205. Mae'r adran hon yn darparu ffordd i'r Comisiynydd neu i P apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o adolygiad y Tribiwnlys o benderfyniad a wnaed gan y Comisiynydd, sy'n benderfyniad sy'n dod o fewn un o'r pum achos y gellir eu hadolygu o dan adran 103.
206. Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol, caiff yr Uchel Lys roi o'r neilltu benderfyniad y Tribiwnlys. Os rhoddir yr achos o'r neilltu, rhaid i'r Uchel Lys naill ai ail-wneud y penderfyniad neu anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'i ailystyried.

- Case 3 is a case where a complaint is made and the Commissioner decides that the duty under section 93 to consider whether to carry out an investigation does not apply.
 - Case 4 is a case where a complaint is made and the duty under section 93 to consider whether to carry out an investigation of the alleged conduct does not apply and the Commissioner decides not to consider whether to carry out an investigation of the alleged conduct under section 93(8) or, having considered whether to carry out an investigation under that section, decides not to carry out the investigation.
 - Case 5 is a case where a complaint is made and the Commissioner having originally decided to carry out an investigation then decides to discontinue the investigation.
201. To make an application, P must obtain the Tribunal's permission. Permission must be granted where the Tribunal considers that the application would have a reasonable prospect of success or there is some other compelling reason why the application should be heard.
202. The Tribunal must deal with an application for review as if it were an application for judicial review made to the High Court. However, on an application for review, the Tribunal can, under section 104 either affirm or annul the Commissioner's determination.
203. Applications for review must be made within a period of 28 days beginning with the day on which the Commissioner gives P notice of his or her decision under section 94. The Tribunal may accept applications after the 28 day period if P applies in writing and the Tribunal is satisfied that there is a good reason for the failure to appeal before the end of that period, and for the delay (if any) in applying for permission to appeal out of time.

Section 104 – Powers of Tribunal on review

204. On an application for review this section provides that the Tribunal can either affirm or annul the Commissioner's determination. If the Tribunal annuls the Commissioner's determination, the Tribunal must remit the case to the Commissioner with directions for its reconsideration.

Section 105 – Appeals from Tribunal

205. This section provides the Commissioner or P with a route of appeal to the High Court on a point of law arising out of the Tribunal's review of a decision made by the Commissioner which is a decision that falls within one of the five cases capable of review under section 103.
206. If the High Court finds that the Tribunal has made an error on a point of law, the High Court may set aside the decision of the Tribunal. If the case is set aside, the High Court must either remake the decision or remit the case to the Tribunal with directions for its reconsideration.

207. Mae is-adrannau (4) a (5) yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfarwyddiadau y caiff yr Uchel Lys eu rhoi i'r Tribiwnlys ac ynghylch pwerau'r Uchel Lys pan fydd yn ailwneud penderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys.
208. Rhaid gwneud cais i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio, a hynny o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i benderfyniad ar yr apêl o dan adran 103. Mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys y disgresiwn i ganiatáu i apelau gael eu gwneud ar ôl y cyfnod hwnnw os yw wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i geisio am ganiatâd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ac, os oes oedi wedi bod cyn ceisio am ganiatâd i apelio ar ôl y cyfnod priodol, dros yr oedi hwnnw.

Adran 106 - Hawl i wneud cais i berson gael ei ychwanegu'n barti mewn achos

209. Mae'r adran hon yn gymwys mewn dau achos.
210. Yr achos cyntaf yw:
- pan fo D yn gwneud apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 95(2) yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd fod D wedi methu â chydymffurfio â safon; a
 - pan wnaed y dyfarniad hwnnw ar ôl ymchwiliad yn dilyn cwyn ynghylch ymddygiad D o dan adran 93.
211. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu'r person ("P") a wnaeth y gwyn o dan adran 93 fod D wedi gwneud yr apêl a chaiff P wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos. Os ychwanegir P yn barti, rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu P o'i benderfyniad ar apêl. Caiff P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys o dan adran 97 ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw.
212. Yr ail achos yw:
- pan fo P yn apelio i'r Tribiwnlys o dan adran 99 yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd na wnaeth D fethu â chydymffurfio â safon; a
 - pan fo'r dyfarniad wedi'i wneud ar ôl ymchwiliad yn dilyn cwyn gan P ynghylch ymddygiad D o dan adran 93.
213. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D fod P wedi apelio o dan adran 99 a chaiff D wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos. Os ychwanegir D yn barti, mae'r Tribiwnlys o dan ddyletswydd i hysbysu D o'i benderfyniad ar yr apêl a chaiff D, gyda chaniatâd, apelio i'r Uchel Lys o dan adran 101 ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw.

207. Subsections (4) and (5) make provision about the directions that the High Court may give to the Tribunal and the High Court's powers when remaking a decision made by the Tribunal.
208. An application for permission to appeal must be made to the Tribunal or High Court within a period of 28 days beginning on the day when the Tribunal notified the person making the application of its decision on the appeal under section 103. The Tribunal or High Court have the discretion to allow appeals to be made after that period if they are satisfied that there is a good reason for the failure to apply for permission before the end of the 28 day period and, if there has been a delay in applying for permission to appeal out of time, for that delay.

Section 106 – Right to apply to be added as a party to proceedings

209. This section applies in two cases.
210. The first case is where:
- D makes an appeal to the Tribunal under section 95(2) against a determination by the Commissioner that D has failed to comply with a standard; and
 - that determination was made after an investigation that followed a complaint about D's conduct under section 93.
211. In this case the Tribunal must notify the person ("P") who made the complaint under section 93 that D has made the appeal and P may apply to the Tribunal to be added as a party to proceedings. Where P is added as a party, the Tribunal must notify P of its decision on appeal. P may, with the permission of the Tribunal or High Court, appeal to the High Court under section 97 on a question of law arising out of that decision.
212. The second case is where:
- P appeals to the Tribunal under section 99 against a determination by the Commissioner that D did not fail to comply with a standard; and
 - the determination was made after an investigation which followed a complaint by P about D's conduct under section 93.
213. In this case, the Tribunal must notify D that P has appealed under section 99 and D may apply to the Tribunal to be added as a party to proceedings. If D is added as a party, the Tribunal is under a duty to notify D of its decision on the appeal and D may, with permission, appeal to the High Court under section 101 on a question of law arising out of that decision.

Adran 107 - Rhwystro a dirmygu

214. Os yw'r Comisiynydd yn credu:

- bod person wedi'i rwystro wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rhan hon, neu
- mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71, fod person wedi gweithredu mewn modd a fyddai'n ddirmyg llys pe bai'r ymchwiliad yn cael ei drafod gan yr Uchel Lys

caiff y Comisiynydd ddyroddi tystysgrif i'r Uchel Lys. Caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater. Os yw wedi'i fodloni y byddai gweithredoedd person yn ddirmyg llys, caiff ddelio â'r person hwnnw fel pe bai'r person hwnnw wedi cyflawni dirmyg mewn perthynas â'r Uchel Lys.

Adran 108 - Dogfen polisi gorfodi

215. Rhaid i'r Comisiynydd gynhyrchu dogfen polisi gorfodi yn nodi ei ymagwedd arfaethedig at arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Rhan hon. Rhaid i'r ddogfen ac unrhyw ddiwygiadau iddi gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

216. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch trefnu bod y ddogfen hon ar gael i'w harchwilio ac ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau hynny.

Adran 109 - Cofrestr camau gorfodi

217. Rhaid i'r Comisiynydd greu a chynnal cofrestr gyfoes o'r holl gamau gorfodi y mae'n eu cymryd. Mae'r adran hon yn datgan yr hyn y mae'n rhaid i'r gofrestr ei gynnwys.

218. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch trefnu bod y gofrestr ar gael i'w harchwilio ac ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau hynny.

Adran 110 - Dehongli

219. Mae'r adran hon yn diffinio "camau gorfodi" a "person a chanddo fuddiant" at ddibenion Rhan 5.

Adran 111 - Gwneud cais i'r Comisiynydd

220. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth i unigolyn (y cyfeirir ato yn y Mesur ac yn y nodyn esboniadol hwn fel "P") sydd o'r farn bod trydydd person (y cyfeirir ato yn y Mesur ac yn y nodyn esboniadol hwn fel "D") wedi ymyrryd â'i ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (y cyfeirir ato yn y Mesur ac yn y nodyn esboniadol hwn fel "R") wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddo ymchwilio i'r ymyrraeth honedig. Mae is-adran (3) yn nodi sut y dylai'r cais gael ei gyflwyno ac mae is-adrannau (4) a (5) yn nodi'r manylion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cais.

Adran 112 - Cyfathrebiadau Cymraeg

221. Mae'r adran hon yn diffinio 'cyfathrebiad Cymraeg' fel cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad.

Section 107 – Obstruction and contempt

214. If the Commissioner believes that:

- a person has obstructed him or her in carrying out his or her duties under this Part, or
- in respect of an investigation under section 71, a person has acted in a manner that would be in contempt of court if the investigation were being dealt with by the High Court

the Commissioner can issue a certificate to the High Court. The High Court may inquire into the matter. If it is satisfied that a person's actions would be in contempt of court, it may deal with that person as if that person had committed contempt in relation to the High Court.

Section 108 – Enforcement policy document

215. The Commissioner must produce an enforcement policy document setting out his or her intended approach to exercising the Commissioner's functions under this Part. The document and any amendments to it must be approved by the Welsh Ministers.

216. This section also makes provision about the availability of the document for inspection and about publicising those arrangements.

Section 109 – Register of enforcement action

217. The Commissioner must create and maintain an up to date register of all enforcement action undertaken by him or her. This section states what the register must include.

218. This section also makes provision about the availability of the register for inspection and about publicising those arrangements.

Section 110 – Interpretation

219. This section defines "enforcement action" and "interested person" for the purpose of Part 5.

Section 111 – Application to Commissioner

220. This section makes provision for an individual (referred to in the Measure and in this explanatory note as "P") who considers that his or her freedom to undertake a Welsh communication with another individual (referred to in the Measure and in this explanatory note as "R") has been interfered with by a third person (referred to in the Measure and in this explanatory note as "D") to apply to the Commissioner to investigate the alleged interference. Subsection (3) sets out how the application should be submitted and subsections (4) and (5) specify the detail which must be included in the application.

Section 112 – Welsh communications

221. This section defines 'Welsh communication' as a communication carried out in the Welsh language between two individuals who are located in Wales and who wish to use the Welsh language with one another in undertaking the communication.

Adran 113 - Ymyrryd â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

222. At ddibenion y rhan hon o'r Mesur mae'r adran hon yn nodi beth yw ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg y caniateir i'r Comisiynydd ymchwilio iddo. Gall ymyrraeth ddigwydd ar sawl ffurf wahanol ac mae'r ffurfiau hyn yn cael eu disgrifio yn is-adrannau (2) i (8).

Achos 1

223. Mae is-adran (2)(a) yn caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrraeth lle mae D wedi mynegi i P neu R fod rhaid iddyn nhw beidio ag ymgymryd â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

224. Effaith is-adran (2)(b) yw y bydd y Comisiynydd hefyd yn cael ymchwilio i achosion lle mae D, yn hytrach na mynegi na ddylai cyfathrebiad penodol ddigwydd,

- wedi mynegi'n fwy cyffredinol na ddylai'r Gymraeg gael ei defnyddio; a
- mae mynegiad mwy cyffredinol D yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o "cyfathrebiad Cymraeg".

225. Rhaid i is-adran (2) gael ei darllen ar y cyd ag is-adran (6). Diben is-adran (6) yw cydnabod bod yna nifer o ffyrdd gwahanol i D fynegi na ddylai P ac R ymgymryd â chyfathrebiad penodol neu categori penodol o gyfathrebiadau. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn glir bod rhoi cyfarwyddyd yn un ffordd o'r fath, ac felly hefyd mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu drwy law rhywun arall) os byddan nhw'n ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau. Ffordd arall yw i D, neu rywun arall ar anogaeth D, beri bod P neu R yn dioddef anfantais mewn cysylltiad ag ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau.

226. Does dim bwriad i is-adran (6) fod yn rhestr gynhwysfawr o'r ffyrdd y gallai D eu defnyddio i fynegi na ddylai P ac R ymgymryd â chyfathrebiad penodol neu categori penodol o gyfathrebiadau. Gallai'r mynegi gael ei wneud mewn ffordd wahanol nad yw ymhlith y rhai sydd wedi'u rhestru.

Achos 2

227. Mae is-adran (3)(a) yn caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrraeth lle mae D wedi mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu drwy law rhywun arall) am eu bod wedi ymgymryd â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

228. Mae is-adran (3)(b) yn gwneud gwaith tebyg i is-adran (2)(b) sydd wedi'i hesbonio uchod. Mae'n caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion lle mae bygythiad D y bydd anfantais yn cael ei pheri yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn fwy cyffredinol, ond ei fod yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

Section 113 – Interference with freedom to use Welsh

222. This section sets out what, for the purposes of this part of the Measure, is an interference with the freedom to use Welsh which the Commissioner can investigate. An interference can take a number of different forms and these different forms are described in subsections (2) to (8).

Case 1

223. Subsection (2)(a) allows the Commissioner to investigate cases of interference in which D has indicated to P or R that they must not undertake a particular communication in Welsh that falls within the definition of a Welsh communication.

224. The effect of subsection (2)(b) is that the Commissioner will also be able to investigate instances where D, rather than indicating that a particular communication should not take place,

- has indicated more generally that Welsh should not be used, and
- that D's more general indication catches within it communications which fall within the definition of "Welsh communication".

225. Subsection (2) is to be read with subsection (6), the purpose of which is to recognise that there are a number of different ways in which D could indicate to P and R that they should not a particular communication or a category of communications. Subsection (6) makes it clear that giving an instruction is one such way, as is indicating that P or R will be subjected to a detriment (either imposed by D or by someone else) if they undertake the communication or category of communications. A further way is by D, or someone else at D's instigation, subjecting P or R to a detriment in connection with them having undertaken the communication or category of communications.

226. Subsection (6) is not intended to be an exhaustive list of the ways in which D could indicate that P and R should not undertake a particular communication or a category of communications. The indication could be made in a different way which is not one of those listed.

Case 2

227. Subsection (3)(a) allows the Commissioner to investigate cases of interference in which D has indicated that P or R will be subjected to a detriment (either imposed by D or by someone else) because they have undertaken a particular communication in Welsh that falls within the definition of a Welsh communication.

228. Subsection (3)(b) performs an equivalent role to subsection (2)(b) which has been explained above. It allows the Commissioner to investigate instances where D's threat that a detriment will be imposed relates to the use of Welsh more generally, but catches communications which fall within the definition of a Welsh communication.

Achos 3

229. Mae is-adran (4)(a) yn caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrraeth lle mae D, neu rywun sy'n gweithredu ar anogaeth D, eisoes wedi peri anfantais i P neu R am eu bod wedi ymgymryd â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.
230. Mae is-adran (4)(b) yn gwneud gwaith tebyg i is-adrannau (2)(b) a (3)(b) sydd wedi'u hesbonio uchod. Mae'n caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion lle mae penderfyniad D (neu rywun arall ar anogaeth D) i beri anfantais yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn fwy cyffredinol, ond ei fod yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.
231. Mae is-adran (5) yn darparu mai dim ond i'r graddau y mae hynny'n effeithio ar gyfathrebiadau Cymraeg y caiff y Comisiynydd ystyried gweithred D a dod i benderfyniad arno mewn achosion lle mae mynegiadau mwy cyffredinol yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.
232. Mae is-adran (6) wedi'i hesbonio uchod yn y nodyn sy'n ymdrin ag is-adran (2).
233. Mae is-adran (7) yn darparu nad yw pŵer y Comisiynydd i ymchwilio i fynegiad gan D fod rhaid peidio ag ymgymryd â chyfathrebiad yn Gymraeg neu y bydd anfantais yn cael ei pheri yn dibynnu mewn unrhyw fodd ar y cwestiwn a oes gan D neu unrhyw un arall y gallu i gyflawni'r hyn a fynegwyd.
234. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn glir bod cael eich bygyly, eich bwlio, eich aflonyddu neu eich bychanu yn gyfystyr â dioddef anfantais at ddibenion yr adran hon.

Adran 114 - Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

235. Pan fo cais yn cael ei wneud o dan adran 111 gan P i'r Comisiynydd ymchwilio i ymyrraeth honedig, mae'r adran hon yn datgan mai mater i'r Comisiynydd yw penderfynu a ddylai ymchwilio neu beidio. Mae is-adran (3) yn rhestru materion y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu hystyried neu y caiff eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwnnw.
236. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth y cyd-destun y mae'r ymyrraeth honedig wedi digwydd ynddo, gan gynnwys unrhyw berthynas sy'n bodoli rhwng D a P, neu D ac R. Mae'r Comisiynydd yn awdurdod cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac felly mae'n rhaid iddo beidio â gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn). Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn yn ymdrin â'r hawl i gael parch i fywyd preifat a bywyd teuluol.
237. Serch hynny, nid yw'r Comisiynydd yn cael ei gyfyngu i ystyried dim ond y materion sydd wedi'u rhestru yn is-adran (3) wrth benderfynu a ddylai ymchwilio i ymyrraeth honedig neu beidio. Gall fod yna ffactorau eraill sy'n berthnasol i'w benderfyniad.

Case 3

229. Subsection (4)(a) allows the Commissioner to investigate cases of interference in which D, or someone acting at D's instigation, has already subjected P or R to a detriment because they have undertaken a particular communication in Welsh that falls within the definition of a Welsh communication.
230. Subsection (4)(b) performs an equivalent role to subsections (2)(b) and (3)(b) which have been explained above. It allows the Commissioner to investigate instances where D's (or someone else's at D's instigation) imposition of a detriment relates to the use of Welsh more generally, but catches communications which fall within the definition of Welsh communication.
231. Subsection (5) provides that in cases where more general indications catch communications which fall within the definition of Welsh communications, the Commissioner is only able to consider and reach a conclusion about D's action to the extent that it affects Welsh communications.
232. Subsection (6) has been explained above in the note dealing with subsection (2).
233. Subsection (7) provides that the Commissioner's power to investigate an indication by D that a communication in Welsh must not be undertaken or that a detriment will be imposed, is in no way dependent on D or anyone else having the ability to carry through what has been indicated.
234. Subsection (8) makes it clear that being intimidated, bullied, harassed or humiliated is being subjected to a detriment for the purposes of this section.

Section 114 - Deciding whether to investigate

235. Where an application is made under section 111 by P for the Commissioner to investigate an alleged interference, this section states that it is for the Commissioner to decide whether or not to investigate. Subsection (3) lists matters which the Commissioner must consider or may consider in making that decision.
236. The Commissioner must take into account the context in which the alleged interference has occurred, including any relationship which exists between D and P, or D and R. The Commissioner is a public authority subject to the Human Rights Act 1998 and therefore must not act in a way which is incompatible with rights in the European Convention on Human Rights (ECHR). Article 8 of the ECHR deals with the right to respect for private and family life.
237. However the Commissioner is not limited to considering only the matters listed in subsection (3) when deciding whether or not to investigate an alleged interference. There may be other factors which are relevant to his or her decision.

238. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi gwybod i P a D am y penderfyniad i gynnal yr ymchwiliad a rhoi'r "wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau" (gweler isod) iddyn nhw. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'r ymyrraeth honedig, rhaid iddo roi gwybod i P am y penderfyniad a'r rheswm drosto (is-adran (6)).
239. Mae is-adran (8) yn rhoi ystyr 'gwybodaeth berthnasol am ymchwiliadau'.

Adran 115 - Ymchwiliadau

240. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y caiff y Comisiynydd ei wneud a'r hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud os bydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig.

Adran 116 - Terfynu ymchwiliadau

241. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd roi'r gorau i'w ymchwiliad i'r ymyrraeth honedig ar unrhyw adeg. Mae is-adran (2) yn rhestru'r camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd os bydd yn penderfynu rhoi'r gorau i'r ymchwiliad.

Adran 117 - Cwblhau ymchwiliadau

242. Mae'r adran hon yn gymwys mewn amgylchiadau lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ac nad yw'n rhoi'r gorau i'r ymchwiliad. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd benderfynu a yw D wedi ymyrryd neu beidio â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 113. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod ymyrraeth wedi digwydd, rhaid iddo roi barn ar yr ymyrraeth (gan gynnwys ei farn ynghylch a allai'r ymyrraeth gael ei gyfiawnhau, ond heb fod yn gyfyngedig i'w farn ynghylch hynny (is-adran (3)).
243. Cyn gwneud unrhyw ddyfarniad o dan is-adran (2) neu roi barn o dan is-adran (3), rhaid i'r Comisiynydd roi gwybod i D am y dyfarniad y mae'n bwriadu ei roi neu am y farn y mae'n bwriadu ei rhoi, a, cyn belled ag y bo'n ymarferol, rhaid i'r Comisiynydd roi cyfle i D ymateb. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r dyfarniad gael ei wneud, mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiynydd roi gwybod amdano i P a D.
244. Mae is-adran (7) yn caniatáu i'r Comisiynydd roi cyngor i P, D neu unrhyw berson arall, ynghylch yr ymyrraeth honedig neu unrhyw fater sy'n ymwneud ag e.

Adran 118 - Adroddiadau

245. Does dim dyletswydd ar y Comisiynydd i gynhyrchu adroddiad pan fydd yn cwblhau ymchwiliad. Os bydd y Comisiynydd o'r farn mewn achos penodol mai rhannu ei gasgliadau gyda P a D yn unig yw'r peth priodol i'w wneud, mae'n cael gwneud hynny.

238. If the Commissioner decides to investigate, subsection (5) requires him or her to inform P and D of the decision to undertake the investigation and to give the “relevant information about investigations” (see below) to them. Should the Commissioner decide not to investigate the alleged interference he or she must inform P of the decision and the reason for it (subsection (6)).

239. Subsection (8) gives the meaning of ‘relevant information about investigations’.

Section 115 – Investigations

240. This section sets out what the Commissioner may do and must do if he or she decides to investigate the alleged interference.

Section 116 – Discontinuing investigations

241. This section allows the Commissioner to discontinue his or her investigation of the alleged interference at any time. Subsection (2) lists the steps the Commissioner must take if he or she decides to discontinue the investigation.

Section 117 – Concluding investigations

242. This section applies in circumstances where the Commissioner decides to investigate the alleged interference and does not discontinue the investigation. Subsection (2) requires the Commissioner to determine whether or not D has interfered with P’s freedom to undertake a Welsh communication, as defined in section 113. If the Commissioner decides that interference has occurred, he or she must give a view on the interference (including, but not limited to whether in his or her view the interference was justified (subsection (3))).

243. Before making any determination under subsection (2) or giving views under subsection (3) the Commissioner must inform D of the determination he or she is proposing to make and of the views he or she is proposing to give, and, so far as is practicable, the Commissioner must give D the opportunity to respond. As soon as practicable after the determination has been made the Commissioner is required to notify P and D of it.

244. Subsection (7) allows the Commissioner to give advice to P, D or any other person, about the alleged interference or any matter relating to it.

Section 118 – Reports

245. The Commissioner is not under a duty to produce a report when he or she concludes an investigation. If the Commissioner considers in a particular case that the appropriate action is to share his or her conclusions with P and D only, he or she is able to do that.

246. Serch hynny, mae is-adran (2) yn darparu y caiff y Comisiynydd gynhyrchu adroddiad i'w roi i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw gais (nid dim ond ceisiadau y mae wedi ymchwilio iddyn nhw) a gafodd ei wneud iddo o dan adran 111, ac ynghylch y camau a gymerodd mewn ymateb i'r cais hwnnw. Os bydd adroddiad o'r fath yn cael ei gynhyrchu, mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i roi copi i P a D.
247. Pan fo'r Comisiynydd wedi cynhyrchu adroddiad i Weinidogion Cymru o dan is-adran (2), mae is-adran (4) yn caniatáu i'r Comisiynydd gyhoeddi'r adroddiad hwnnw neu, fel arall, dogfen berthynol arall. Mae'n cael cyhoeddi fersiwn o'i adroddiad (er enghraifft, fersiwn cryno neu fersiwn sy'n tynnu enwau'r partïon sydd wedi'u crybwyll ynddo), neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad.
248. Mae is-adrannau (5) i (8) yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw ddogfen o dan is-adran (4). Rhaid i P a D ill dau gytuno i ddogfen gael ei chyhoeddi neu, os nad yw eu cytundeb nhw wedi'i sicrhau, rhaid i'r Comisiynydd fod o'r farn bod cyhoeddi er budd y cyhoedd. Wrth bwysu a mesur a ydy hi er budd y cyhoedd, rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth fuddiannau P, D ac unrhyw berson priodol arall. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu mewn unrhyw achos nad ymyrrodd D â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 113, mae'r Comisiynydd wedi'i wahardd rhag enwi D mewn unrhyw ddogfen y bydd yn ei chyhoeddi o dan is-adran (4).

Adran 119 - Adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru

249. Mae'r adran hon yn rhestru'r mathau o wybodaeth ynghylch ceisiadau am ymchwiliad i ymyrraeth honedig y mae'n rhaid eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd, sy'n ofynnol o dan adran 18 o'r Mesur.
250. Mae is-adran (1)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd roi barn ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith wrth ddiogelu rhyddid personau yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.
251. Mae is-adran (2) yn rhestru'r materion y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu hystyried wrth ffurfio barn at y diben hwn, er nad yw'n cael ei gyfyngu i'r materion hyn yn unig.
252. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch yr adroddiadau mewn rheoliadau.
253. Effaith is-adran (4) yw bod rhaid i'r adroddiad blynyddol beidio â'i gwneud yn hysbys pwy yw D, os yw adroddiad blynyddol y Comisiynydd yn cyfeirio at unrhyw achosion lle penderfynodd nad ymyrrodd D â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 113.

246. However, subsection (2) provides that the Commissioner may produce a report to be given to the Welsh Ministers on any application (not only ones which he or she has investigated) made to him or her under section 111, and on the action taken by him or her in response to that application. If such a report is produced, subsection (3) places a duty upon the Commissioner to give a copy to P and D.
247. Where the Commissioner has produced a report to the Welsh Ministers under subsection (2), subsection (4) allows the Commissioner to publish that report or, alternatively, another related document. He or she may publish a version of their report (for example, a summary version or one which anonymises the parties mentioned in it), or another document which relates to the report's subject matter.
248. Subsections (5) to (8) set out the requirements which must be met in order for the Commissioner to publish any document under subsection (4). Both P and D must agree to the publication of a document or, if their agreement has not been obtained, the Commissioner must consider that publication is in the public interest. In considering whether it is in the public interest, the Commissioner must take account of the interests of P, D and any other appropriate person. If in any case the Commissioner decides that D did not interfere with the freedom to use Welsh as defined in section 113, the Commissioner is prohibited from identifying D in any document which he or she publishes under subsection (4).

Section 119 – Annual report to Welsh Ministers

249. This section lists the types of information relating to applications to investigate alleged interferences that must be included in the Commissioner's annual report, required under section 18 of the Measure.
250. Subsection (1)(c) requires the Commissioner to give a view on the adequacy and effectiveness of the law in protecting the freedom of persons in Wales wishing to use the Welsh language with one another.
251. Subsection (2) lists the matters the Commissioner must consider in formulating a view for this purpose, although he or she is not limited to those matters.
252. Subsection (3) enables the Welsh Ministers to make provision about the reports in regulations.
253. The effect of subsection (4) is that if the Commissioner's annual report referred to any cases in which he or she had decided that D did not interfere with the freedom to use Welsh as defined in section 113, the annual report must not identify D.

Adran 120 - Tribiwnlys y Gymraeg

254. Mae'r adran hon yn sefydlu'r Tribiwnlys ac yn darparu bod rhaid i'r Tribiwnlys gynnwys Llywydd, aelodau a chanddynt gymwysterau yn y gyfraith ac aelodau lleeg. Rhaid i aelodau'r Tribiwnlys gael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae is-adran (4) yn rhoi ei heffaith i Atodlen 11 sy'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch y Tribiwnlys.

Adran 121 - Cyfansoddiad ar gyfer achosion gerbron y Tribiwnlys

255. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad y Tribiwnlys i ymdrin ag achosion. Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (gweler adran 123).

Adran 122 - Gwrandawiadau cyhoeddus

256. Mae achosion gerbron y Tribiwnlys i gael eu cynnal yn gyhoeddus o dan Reolau'r Tribiwnlys.

Adran 123 - Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg

257. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd wneud rheolau ("Rheolau'r Tribiwnlys") yn llywodraethu'r arferion a'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Tribiwnlys. Rhaid i Reolau'r Tribiwnlys gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Adran 124 - Cyfarwyddiadau ymarfer

258. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Llywydd roi cyfarwyddiadau ynghylch arferion a gweithdrefn y Tribiwnlys. Rhaid i unrhyw gyfarwyddiadau a fydd yn cael eu rhoi gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru oni bai eu bod yn ymwneud â chymhwyso'r gyfraith neu ddehongli'r gyfraith, neu'n ymwneud â phenderfyniadau gan aelodau'r Tribiwnlys.

Adran 125 - Canllawiau, cyngor a gwybodaeth

259. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Llywydd roi canllawiau i aelodau eraill o'r Tribiwnlys ynghylch arfer eu swyddogaethau. Rhaid i aelodau'r Tribiwnlys roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath. Mae'r Llywydd hefyd yn cael rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch y Tribiwnlys a'i swyddogaethau.

Adran 126 - Pwerau atodol

260. Mae'r adran hon yn rhoi'r un pwerau, hawliau, breintiau ac awdurdod i'r Tribiwnlys ag sydd gan yr Uchel Lys o ran:

- presenoldeb tystion a holi tystion;
- dangos dogfennau ac archwilio dogfennau; a
- phob mater arall sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Tribiwnlys.

261. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys i gyfarwyddo bod rhaid i barti neu dyst gael ei holi ar lw neu gadarnhad. Caiff y Tribiwnlys weinyddu unrhyw lw, neu gymryd unrhyw gadarnhad, sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw.

Section 120 – The Welsh Language Tribunal

254. This section establishes the Tribunal and provides that the Tribunal is to consist of a President, legally-qualified members and lay members. The Welsh Ministers must appoint the members of the Tribunal. Subsection (4) gives effect to Schedule 11 which makes further provision about the Tribunal.

Section 121 – Composition for proceedings before Tribunal

255. This section makes provision regarding the Tribunal's composition to deal with proceedings. This section is subject to Tribunal Rules (see section 123).

Section 122 – Hearings in public

256. Tribunal proceedings are to be held in public subject to Tribunal Rules.

Section 123 – Welsh Language Tribunal Rules

257. This section requires the President to make rules ("Tribunal Rules") governing the practice and procedure to be followed in the Tribunal, which are subject to the approval of the Welsh Ministers.

Section 124 – Practice directions

258. This section allows the President to give directions as to the practice and procedure of the Tribunal. Any directions given are subject to the approval of the Welsh Ministers unless they relate to the application or interpretation of the law or the making of decisions by members of the Tribunal.

Section 125 – Guidance, advice and information

259. This section allows the President to give guidance to other members of the Tribunal in relation to the exercise of their functions. Members of the Tribunal must have regard to any such guidance. The President may also give advice and information in respect of the Tribunal and its functions.

Section 126 – Supplementary powers

260. This section provides the Tribunal with the same powers, rights, privileges and authority as the High Court in relation to:

- the attendance and examination of witnesses;
- the production and inspection of documents; and,
- all other matter incidental to the Tribunal's functions.

261. Subsection (4) gives the Tribunal a power to direct that a party or witness is to be examined under oath or affirmation. The Tribunal may administer any oath, or take any affirmation, that is necessary for that purpose.

Adran 127 - Staff, adeiladau ac adnoddau eraill y Tribiwnlys

262. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer y Tribiwnlys y lefel briodol o staff, adeiladau, adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i arfer ei swyddogaethau.

Adran 128 - Cynghorwyr sydd wedi ymgymhwyso'n arbennig

263. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Llywydd benodi cynghorwyr a chanddyn nhw gymwysterau arbennig i roi cymorth i'r Tribiwnlys.

Adran 129 - Y sêl

264. Bydd gan y Tribiwnlys sêl swyddogol. Mae dogfennau sy'n dwyn y sêl i gael eu derbyn fel tystiolaeth yng Nghymru a Lloegr heb ragor o brawf.

Adran 130 - Y flwyddyn ariannol

265. Mae'r adran hon yn diffinio blwyddyn ariannol y Tribiwnlys.

Adran 131 - Swydd y Llywydd yn wag

266. Os bydd swydd y Llywydd yn wag, mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud penodiadau er mwyn i swyddogaethau'r Llywydd gael eu harfer.

Adran 132 - Adroddiad blynyddol y Llywydd

267. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gynhyrchu adroddiad blynyddol ynghylch sut mae'r Tribiwnlys wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a gosod yr adroddiad hwnnw gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i'r Llywydd gydymffurfio â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch ffurf yr adroddiad a sut i'w osod.

Adran 133 - Hyfforddiant etc ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys

268. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i bennu a chynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, arweiniad a lles aelodau'r Tribiwnlys.

Adran 134 - Cofrestr buddiannau

269. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar bob deiliad swydd perthnasol i greu a chynnal cofrestr gyfoes o fuddiannau.

Adran 135 - Cyhoeddi cofrestrau buddiannau

270. Mae'r adran hon yn gosod dyletswyddau ar y Comisiynydd o ran archwilio cofrestr buddiannau deiliad swydd perthnasol a threfnu bod y gofrestr honno ar gael.

Adran 136 - Gwrthdrawiadau buddiannau

271. Mae'r adran hon yn atal deiliad swydd perthnasol rhag arfer swyddogaeth os oes ganddo fuddiant cofrestradwy (sy'n cael ei ddiffinio yn adran 139) sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth honno. Pan fo'r deiliad swydd perthnasol yn cael ei atal rhag arfer swyddogaeth, mae'r adran hon yn darparu ar gyfer sut mae'n rhaid i'r swyddogaeth gael ei dirprwyo (os na all y Comisiynydd weithredu) neu ar gyfer trefnu i'r swyddogaeth gael ei harfer gan un arall (os na all y Dirprwy Gomisiynydd weithredu).

Section 127 – Staff, accommodation and other resources of Tribunal

262. This section requires the Welsh Ministers to ensure that the Tribunal is provided with the appropriate level of staff, accommodation and financial and other resources to exercise its functions.

Section 128 – Specially qualified advisers

263. This section allows the President to appoint specially qualified advisers to provide assistance to the Tribunal.

Section 129 – Seal

264. The Tribunal is to have an official seal. Documents carrying the seal are to be received in evidence in England and Wales without further proof.

Section 130 – Financial year

265. This section defines the Tribunal's financial year.

Section 131 – Vacancy in the office of President

266. In the event of vacancy in the office of President, this section makes provision allowing the Welsh Ministers to make appointments for the purpose of exercising the President's functions.

Section 132 – President's annual report

267. This section requires the President to produce an annual report on the Tribunal's exercise of its functions during that financial year and lay it before the National Assembly for Wales. The President must comply with the National Assembly's requirements relating to the form and laying of the report.

Section 133 – Training etc for members of Tribunal

268. This section places a duty upon the President to decide upon and maintain appropriate arrangements for the training, guidance and welfare of members of the Tribunal.

Section 134 – Register of interests

269. This section places a duty upon each relevant officer holder to create and maintain an up to date register of interests.

Section 135 – Publication of registers of interests

270. This section imposes duties on the Commissioner in respect of the inspection and availability of a relevant office holder's register of interests.

Section 136 – Conflicts of interest

271. This section prevents a relevant office holder from exercising a function if he or she has a registrable interest (defined in section 139) which relates to the exercise of that function. Where the relevant office holder is prevented from exercising a function, this section provides for how the function must be delegated (if the Commissioner is unable to act) or for arrangements to be made for the function to be exercised by another (if the Deputy Commissioner is unable to act).

Adran 137 - Dilysrwydd gweithredoedd

272. Nid yw methiant i gydymffurfio ag un o ddarpariaethau'r Bennod hon o Ran 8 o'r Mesur, neu ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud o dani, yn effeithio ar ddilysrwydd gweithred gan ddeiliad swydd perthnasol.

Adran 138 - Rheoliadau

273. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy a gwneud darpariaeth arall at ddibenion y Bennod hon yn Rhan 8 o'r Mesur.

Adran 139 - Dehongli'r Bennod hon

274. Mae "buddiant cofrestradwy" a "deiliad swydd perthnasol" yn cael eu diffinio yn y Bennod hon.

Adran 140 - Braint absoliwt

275. Mae yna amddiffyniad cyflawn yn y gyfraith (o'r enw braint absoliwt) rhag hawliad o ddifenwi ynglŷn â chyhoeddi materion sy'n syrthio o fewn paragraffau (a) i (e) o is-adran (1). Effaith braint absoliwt yw bod personau sy'n cyhoeddi'r mater yn cael eu diogelu rhag unrhyw atebolrwydd am ddifenwi o dan yr amgylchiadau sydd wedi'u diffinio isod:

- cyhoeddi mater gan y Comisiynydd wrth iddo arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau;
- cyhoeddi mater gan aelod o'r Panel Cyngori wrth iddo arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau;
- cyhoeddi mater gan berson wrth iddo gydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu;
- cyhoeddi, mewn cyfathrebiad rhwng y Comisiynydd a pherson a ddiogelir, fater mewn cysylltiad ag ymholiad neu ymchwiliad;
- cyhoeddi, mewn cyfathrebiad rhwng yr achwynydd neu berson sy'n gweithredu ar ran yr achwynydd a chynrychiolydd, fater sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad o dan Ran 5 (Gorfodi) neu Ran 6 (Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg).

276. Mae is-adran (2) yn darparu bod cyfeiriad at y Comisiynydd yn yr adran hon yn cynnwys aelodau staff y Comisiynydd neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran y Comisiynydd neu'n helpu i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

Adran 141 - Dehongli'r Bennod hon

277. Mae'r adran hon yn darparu nifer o ddiffiniadau er mwyn dehongli adran 140.

Adran 142 - Cyfyngiadau

278. Nid yw'r Mesur yn awdurdodi'r Comisiynydd nac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd arfer swyddogaeth ragnodedig sydd yn rhinwedd deddfiad yn arferadwy hefyd gan berson rhagnodedig. At ddibenion yr adran hon, ystyr "rhagnodedig" yw wedi'i ragnodi mewn gorchymyn sydd wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru.

Section 137 – Validity of acts

272. The validity of an act of a relevant office holder is not affected by a failure to comply with provision of, or made under, this Chapter of Part 8 of the Measure.

Section 138 – Regulations

273. The Welsh Ministers may make regulations specifying what interests are registrable interests and to make other provision for the purposes of this Chapter of Part 8 of the Measure.

Section 139 – Interpretation of this Chapter

274. “Registrable interest” and “relevant office holder” are defined in this Chapter.

Section 140 – Absolute privilege

275. The publication of matters falling within paragraphs (a) to (e) of subsection (1) have a complete defence in law (called an “absolute privilege”) against a claim of defamation. The effect of absolute privilege is that persons publishing the matter are protected from any liability for defamation in the circumstances defined below:

- the publication of a matter by the Commissioner in the exercise of any of his or her functions;
- the publication of a matter by a member of the Advisory Panel in the exercise of any of his or her functions;
- the publication of a matter by a person in compliance with a requirement in a decision notice;
- the publication, in a communication between the Commissioner and a protected person of a matter in connection with an inquiry or investigation;
- the publication, in a communication between the complainant or person acting on behalf of the complainant and a representative with an investigation under Part 5 (Enforcement) or Part 6 (Freedom to use Welsh).

276. Subsection (2) provides that a reference to the Commissioner in this section includes the members of the Commissioner’s staff or any person acting on the Commissioner’s behalf or assisting in the exercise of the Commissioner’s functions.

Section 141 – Interpretation of this Chapter

277. This section provides a number of definitions for the purposes of interpreting section 140.

Section 142 – Restrictions

278. This Measure does not authorise or require the Commissioner to exercise a prescribed function which by virtue of an enactment is also exercisable by a prescribed person. For the purposes of this section “prescribed” means prescribed in an order made by the Welsh Ministers.

Adran 143 - Diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo swyddogaethau

279. Mae'r adran hon yn nodi dechrau'r cyfnod pontio cyntaf.
280. Mae Bwrdd yr iaith Gymraeg yn cael ei ddiddymu ac mae ei swyddogaethau o dan adran 3 o Ddeddf 1993 yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd. Gallai swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 3 o Ddeddf 1993 gael eu harfer gan Weinidogion Cymru yn lle eu trosglwyddo i'r Comisiynydd neu yn ychwanegol at eu trosglwyddo i'r Comisiynydd. Gallai hyn gael ei gyflawni drwy orchymyn a fyddai'n cael ei wneud o dan adran 154 o'r Mesur hwn.
281. Mae swyddogaethau'r Bwrdd a geir yn Rhan 2 o Ddeddf 1993 (cynlluniau iaith Gymraeg) yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd.
282. Mae'r adran hon hefyd yn diddymu rhai o ddarpariaethau Deddf 1993.

Adran 144 - Diddymu swyddogaethau cyffredinol y Bwrdd a disodli cynlluniau gan safonau

283. Mae'r adran hon yn nodi dechrau'r ail gyfnod pontio. Mae'n darparu ar gyfer symud o gyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg (Rhan 2 o Ddeddf 1993) a swyddogaethau'r Bwrdd (adran 3 o Ddeddf 1993) i'r gyfundrefn newydd o safonau y darperir ar ei chyfer yn y Mesur hwn.
284. Mae'r adran hon yn diddymu swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 3 o Ddeddf 1993, gan gynnwys y rhai a fydd wedi'u trosglwyddo o dan adran 143 yn ystod y cyfnod pontio cyntaf.
285. Pan fo person yn dod o fewn Rhan 2 o Ddeddf 1993, ac yna'n dod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn newydd o safonau o dan adran 25(1) o'r Mesur hwn, ni fydd Rhan 2 yn gymwys iddo mwyach.
286. Mae'r adran hon hefyd yn diddymu rhai o ddarpariaethau Deddf 1993.

Adran 145 - Disodli cynlluniau iaith Gymraeg gan safonau

287. Mae'r adran hon yn nodi diwedd yr ail gyfnod pontio a gafodd ei gychwyn gan adran 144. Mae'r cyfnod olaf yn dechrau wrth i gynllun iaith Gymraeg y corff cyhoeddus olaf gael ei ddisodli drwy gymhwyso safonau'r Gymraeg, fel y darperir ar eu cyfer yn adran 25(1) o'r Mesur hwn.
288. Mae'r adran yn darparu ar gyfer diddymu swyddogaethau'r Bwrdd o dan Ran 2 o Ddeddf 1993, sy'n cael eu harfer gan y Comisiynydd neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 143, Dim ond pan fydd yr holl gynlluniau iaith Gymraeg sy'n bodoli wedi'u disodli drwy gymhwyso safonau, fel y darperir ar eu cyfer gan y Mesur hwn, y bydd y ddarpariaeth hon yn cychwyn.
289. Mae'r adran hon hefyd yn diddymu rhai o ddarpariaethau Deddf 1993.

Adran 146 - Darpariaeth arall

290. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 12 i'r Mesur, sy'n cynnwys darpariaethau eraill ynghylch diddymu'r Bwrdd.

Section 143 – Abolition of the Board and transfer of functions

279. This section marks the beginning of the first stage of transition.
280. The Welsh Language Board is abolished and its functions under section 3 of the 1993 Act are transferred to the Commissioner. The functions of the Board under section 3 of the 1993 Act could be exercised by Welsh Ministers instead of or in addition to the functions being transferred to the Commissioner. This could be achieved by an order made under section 154 of this Measure.
281. The functions of the Board contained in Part 2 of the 1993 Act (Welsh language schemes) are transferred to the Commissioner.
282. This section also repeals certain provisions of the 1993 Act.

Section 144 – Abolition of the Board’s general functions and replacement of schemes with standards

283. This section marks the beginning of the second transitional period. It provides for the move from the Welsh language scheme regime (Part 2 of the 1993 Act) and the functions of the Board (section 3 of the 1993 Act) to the new standards regime provided for in this Measure.
284. This section abolishes the functions of the Board under section 3 of the 1993 Act, including those which have been transferred under section 143 during the first transitional phase.
285. Where a person comes within Part 2 of the 1993 Act, and then becomes subject to the new standards regime under section 25(1) of this Measure, Part 2 will no longer apply to it.
286. This section also repeals certain provisions of the 1993 Act.

Section 145 – Replacement of Welsh language schemes with standards

287. This section marks the end of the second transitional period which was commenced by section 144. The final stage begins as the final public body’s Welsh language scheme is replaced by the application of standards as provided for in section 25(1) of this Measure.
288. The section provides for the abolishment of the Board’s functions under Part 2 of the 1993 Act, which are exercised by the Commissioner or the Welsh Ministers under section 143. This provision is to be commenced only when all existing Welsh language schemes have been replaced by the application of standards as provided for in this Measure.
289. This section also repeals certain provisions of the 1993 Act.

Section 146 – Other provision

290. This section introduces Schedule 12 to the Measure which contains other provisions relating to the abolition of the Board.

Adran 147 - Atodol

291. Mae'r adran hon yn darparu bod pwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o'r Mesur:

- heb gael eu cyfyngu gan y Rhan hon;
- yn gallu cael eu defnyddio i alluogi'r Comisiynydd i arfer swyddogaethau'r Bwrdd nes y bydd swyddogaethau newydd y Comisiynydd, fel y maen nhw'n cael eu rhoi gan y Mesur hwn, wedi cychwyn;
- yn cael diwygio neu ddisodli darpariaethau'r Rhan hon.

292. Mae pwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o'r Mesur yn cynnwys eu pwerau mewn gorchmynion sy'n cael eu gwneud o dan adran 154 (darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc), a gorchmynion o dan adran 156 (cychwyn), ond dydyn nhw ddim wedi'u cyfyngu i'r rhain yn unig.

Adran 148 - Gweinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu

293. Mae'r adran hon yn diwygio adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n rhoi manylion eu cynigion ar gyfer gweithredu eu strategaeth iaith Gymraeg. Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer amser cyhoeddi'r cynllun.

Adran 149 - Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

294. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu a chynnal Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ("y Cyngor Partneriaeth").

295. Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i'r Gweinidog hwnnw o blith Gweinidogion Cymru a chanddo gyfrifoldeb am y Gymraeg gadeirio'r Cyngor Partneriaeth. Gwneir darpariaeth hefyd mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor.

296. Mae is-adran (3) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt benodi aelodau o'r Cyngor Partneriaeth, roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol bod aelodaeth y Cyngor Partneriaeth yn adlewyrchu graddau amrywiol defnyddio'r Gymraeg gan y rhai sy'n byw yng Nghymru.

297. Mae gweithdrefnau'r Cyngor Partneriaeth i'w rheoleiddio gan reolau sefydlog wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru drwy ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth. Caiff y rheolau sefydlog wneud darpariaeth ynghylch pwy ddylai gadeirio'r Cyngor Partneriaeth yn absenoldeb y Gweinidog o blith Gweinidogion Cymru a chanddo gyfrifoldeb am y Gymraeg.

298. Mae is-adran (6) yn darparu i'r Cyngor Partneriaeth roi cyngor neu wneud sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r strategaeth iaith Gymraeg (gan gynnwys y cynllun yn nodi sut bydd Gweinidogion Cymru'n gweithredu'r cynigion a nodir yn y strategaeth).

Section 147 – Supplementary

291. This section provides that the Welsh Ministers' powers under other Parts of the Measure:
- are not limited by this Part;
 - may be used to enable the Commissioner to exercise the functions of the Board until the Commissioner's new functions, as conferred by this Measure, are commenced;
 - may amend or replace the provisions in this Part.
292. The Welsh Ministers' powers under other Parts of the Measure include, but are not limited to, their powers in orders made under section 154 (transitional and consequential provisions etc), and orders under section 156 (commencement).

Section 148 – Welsh Ministers to prepare an action plan

293. This section amends section 78 of the Government of Wales Act 2006 so that Welsh Ministers are required to publish an action plan detailing their proposals for implementing their Welsh language strategy. Provision is also made for the timing of the publication of the plan.

Section 149 – The Welsh Language Partnership Council

294. This section places a duty on the Welsh Ministers to establish and maintain the Welsh Language Partnership Council ("the Partnership Council").
295. Subsection (2) provides that the Welsh Minister with responsibility for the Welsh language must chair the Partnership Council. Provision is also made in relation to its membership.
296. Subsection (3) provides that in appointing members to the Partnership Council, Welsh Ministers must have regard to the fact that it is desirable for the Partnership Council's membership to reflect the varying extent to which the Welsh language is used by those living in Wales.
297. The Partnership Council's procedures are to be regulated by standing orders made by the Welsh Ministers in consultation with the Partnership Council. Standing orders may make provision about who should chair the Partnership Council in the absence of the Welsh Minister with responsibility for the Welsh language.
298. Subsection (6) provides for the Partnership Council to give advice or make representations to the Welsh Ministers in relation to the Welsh language strategy, (including the plan setting out how the Welsh Ministers will implement the proposals set out in the strategy).

Adran 150 - Gorchmynion a rheoliadau

299. Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, y bydd y mwyafrif ohonyn nhw yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae'n rhaid i'r offerynnau statudol sydd wedi'u rhestru yn is-adran (2) gael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol sy'n golygu bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfle i drafod y mater a bod rhaid iddo gymeradwyo'r offeryn statudol cyn iddo allu cael ei wneud. Mae'r offerynnau statudol y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys iddyn nhw yn cynnwys, ymhlith eraill: gorchmynion sy'n diwygio Atodlen 6 neu 8; gorchmynion sy'n pennu safonau; gorchmynion sy'n darparu i safonau fod yn benodol gymwys; gorchmynion sy'n newid uchafswm cosb sifil; gorchmynion sy'n cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu'n addasu deddfiad; rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch penodi'r Comisiynydd; a gorchmynion sy'n newid y swm o arian cyhoeddus sydd wedi'i bennu yn y tabl yn Atodlen 5.

300. Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys y pŵer i wneud y canlynol:

- gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol neu ardaloedd daearyddol gwahanol;
- gwneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol; a
- gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru'n credu eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol.

301. Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer o dan adran 155(3) i gychwyn diddymiad darpariaethau yn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, maen nhw'n cael darparu ar gyfer cychwyn yn wahanol mewn awdurdodaethau gwahanol.

302. Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw Deddf Seneddol, neu un o Fesurau neu Ddeddfau'r Cynulliad.

Adran 151 - Cyfarwyddiadau

303. Mae cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn:

- yn gallu cael eu hamrywio neu eu dirymu gan gyfarwyddyd yn nes ymlaen;
- yn gorfod cael eu rhoi mewn ysgrifen;
- yn cael gwneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol; ac
- yn cael gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol neu ardaloedd daearyddol gwahanol.

Adran 152 - Hysbysiadau etc

304. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth o ran hysbysiadau a dogfennau eraill y mae'n ofynnol eu rhoi o dan y Mesur hwn neu yr awdurdodir eu rhoi o dan y Mesur hwn.

Section 150 – Orders and regulations

299. Any power of the Welsh Ministers to make an order or regulations under this Measure is exercisable by statutory instrument, the majority of which will be subject to the negative resolution procedure. The statutory instruments listed in subsection (2) must be made by affirmative procedure which means that the National Assembly for Wales has an opportunity to debate the matter and must approve the statutory instrument before it can be made. Statutory instruments to which the affirmative procedure applies include amongst others: orders amending Schedule 6 or 8, orders specifying standards, orders providing for the standards to be specifically applicable, orders altering the maximum amount of civil penalty, orders which contain a provision amending, repealing or modifying an enactment, regulations making provision about the appointment of the Commissioner and orders altering the amount of public money specified in the Schedule 5 table.
300. The Welsh Ministers power to make an order or regulations under this Measure includes the power to:
- make different provision for different cases, different purposes or different geographical areas;
 - to make provision generally or in relation to specific cases; and
 - to make such transitional, transitory, consequential, saving, incidental and other provision as the Welsh Ministers think necessary or appropriate.
301. Where the Welsh Ministers have power under section 155(3) to commence a repeal of provisions of the Welsh Language 1993, they may provide for different commencement for different jurisdictions.
302. In this section “primary legislation” means an Act of Parliament, or a Measure or Act of the Assembly.

Section 151 – Directions

303. Directions given by Welsh Ministers under this Measure:
- may be varied or revoked by a later direction;
 - must be given in writing;
 - may make provision generally or in relation to specific cases; and
 - may make different provision for different cases, different purposes or different geographical areas.

Section 152 – Notices etc

304. This section makes provision in relation to notices and other documents required or authorised to be given under this Measure.

Adran 153 - Dehongli'r Mesur hwn

305. Mae'r adran hon yn rhoi diffiniadau o dermau penodol sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur.

Adran 154 - Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc

306. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud unrhyw ddarpariaethau y maen nhw'n credu eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol mewn cysylltiad â'r Mesur neu er mwyn rhoi ei effaith lawn iddo. Mae'r pŵer hwn yn arferadwy drwy orchymyn.

307. Mae hyn yn cynnwys pŵer i ddiwygio, diddymu neu addasu deddfiad mewn cysylltiad â'r Mesur neu i roi ei effaith lawn iddo.

Adran 155 - Rychwant

308. Yn ddarostyngedig i is-adran (3), mae'r Mesur yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig. Mae is-adran (3) yn darparu bod diddymiad ar un o ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gymwys i'r un graddau â'r ddarpariaeth sy'n cael ei diddymu.

Adran 156 - Cychwyn

309. Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer cychwyn darpariaethau'r Mesur.

Adran 157 - Enw Byr

310. Enw byr y Mesur hwn yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Atodlen 1 - Comisiynydd y Gymraeg

311. Mae Atodlen 1 yn cael ei chyflwyno gan adran 2 o'r Mesur. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch statws y Comisiynydd a'i benodi, ac ynghylch materion ariannol.

Paragraff 1 - Statws

312. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch statws cyfreithiol y Comisiynydd. Rhaid peidio â barnu bod y Comisiynydd yn was neu'n asiant i'r Goron na bod ganddo unrhyw statws, imiwnedd neu faint sydd gan y Goron, a rhaid peidio â barnu bod eiddo'r Comisiynydd yn eiddo i'r Goron neu'n eiddo sy'n cael ei ddal ar ran y Goron. Mae is-adran (4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth iddynt arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r Comisiynydd, i roi sylw i faterion penodedig yn ymwneud ag annibyniaeth weithrediadol y Comisiynydd.

Paragraff 2 - Dilysrwydd gweithredoedd

313. Mae'r paragraff hwn yn sicrhau nad yw diffyg wrth benodi'r Comisiynydd neu unrhyw aelod o'r Panel Cynghori (neu yn achos person sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Comisiynydd, diffyg wrth benodi'r person hwnnw) yn effeithio ar ddilysrwydd gweithredoedd sy'n cael eu cyflawni gan y Comisiynydd, neu gan berson sy'n arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

Paragraff 3 - Penodi

314. Mae'r paragraff hwn yn nodi'r paramedrau y mae'n rhaid i Brif Weinidog Cymru weithredu o'u mewn wrth benodi'r Comisiynydd.

Section 153 – Interpretation of this Measure

305. This section provides definitions of certain terms used in the Measure.

Section 154 – Transitional and consequential provision etc

306. This section gives the Welsh Ministers the power to make such provisions as they think necessary or appropriate in connection with the Measure or to give full effect to it. This power is exercisable by order.

307. This includes a power to amend, repeal or modify an enactment in connection with the Measure or to give full effect to it.

Section 155 – Extent

308. Subject to subsection (3), the Measure extends to England and Wales only. Subsection (3) provides that a repeal of a provision of the Welsh Language Act 1993 has the same extent as the provision repealed.

Section 156 – Commencement

309. This section sets out the arrangements for commencing the provisions of the Measure.

Section 157 – Short Title

310. The short title for this Measure is the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Schedule 1 – The Welsh Language Commissioner

311. Schedule 1 is introduced by section 2 of the Measure. Schedule 1 makes provision about the Commissioner's status, appointment, and financial matters.

Paragraph 1 – Status

312. This paragraph makes provision regarding the Commissioner's legal status. The Commissioner is not to be regarded as the servant or agent of the Crown or as enjoying any status, immunity or privilege of the Crown, and that the Commissioner's property is not to be regarded as property of, or property held on behalf, of the Crown. Subsection (4) places a duty on Welsh Ministers, when exercising functions in relation to the Commissioner, to have regard to specified matters relating to the Commissioner's operational independence.

Paragraph 2 – Validity of acts

313. This paragraph ensures that the validity of acts undertaken by the Commissioner, or of a person exercising functions of the Commissioner, are not affected by a defect in the appointment of the Commissioner or any member of the Advisory Panel (or in the case of a person exercising functions on behalf the Commissioner, a defect in the appointment of that person).

Paragraph 3 – Appointment

314. This paragraph sets out the parameters within which the First Minister must operate in appointing the Commissioner.

Paragraff 4 - Tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau

315. Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth, lwfansau, arian rhodd a phensiynau i'r Comisiynydd, a symiau ar gyfer pensiynau neu tuag at pensiynau personau sydd wedi bod yn Gomisiynydd.

Paragraff 5 - Telerau penodi

316. Mae'r paragraff hwn yn sicrhau bod y Comisiynydd yn dal ei swydd yn unol â thelerau ei benodi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill Atodlen 1. Mae is-paragraff (3) yn ei gwneud yn ofynnol i delerau penodi'r Comisiynydd ddarparu bod y Comisiynydd yn dal ei swydd yn llawn-amser.

Paragraff 6 - Cyfnod y penodiad

317. Mae'r paragraff hwn yn darparu bod person sy'n cael ei benodi'n Gomisiynydd yn dal ei swydd am gyfnod o 7 mlynedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 3 o Atodlen 1 sy'n ymdrin ag anghymhwysu, ac ag ymddiswyddiad y Comisiynydd neu ddiswyddo'r Comisiynydd.

Paragraff 7 - Rheoliadau penodi

318. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch penodi'r Comisiynydd drwy reoliadau ("rheoliadau penodi").

Paragraff 8 - Dirprwyo swyddogaethau penodi etc

319. Mae'r paragraff hwn yn rhoi pŵer i Brif Weinidog Cymru, drwy orchymyn, i ddirprwyo swyddogaeth penodi'r Comisiynydd ac unrhyw rai neu'r cyfan o'i swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Comisiynydd i Weinidogion Cymru.

Paragraff 9 - Ymddiswyddo

320. Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i'r Comisiynydd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o nid llai na thri mis i Brif Weinidog Cymru.

Paragraff 10 - Anghymhwysu

321. Mae person yn peidio â bod yn Gomisiynydd os yw wedi'i anghymhwysu rhag bod yn Gomisiynydd ar sail cyflogaeth.

Paragraff 11 - Diswyddo

322. Mae'r paragraff hwn yn rhoi pŵer i Brif Weinidog Cymru i ddiswyddo'r Comisiynydd o dan amgylchiadau penodol.

Paragraff 12 - Taliadau pan fydd yn peidio â dal y swydd

323. Mae'r paragraff hwn yn rhoi'r disgrisiwn i Weinidogion Cymru i dalu iawndal i berson sy'n rhoi'r gorau i swydd y Comisiynydd.

Paragraff 13 - Anghymhwysu rhag bod yn Gomisiynydd

324. Mae'r paragraff hwn yn darparu bod person sy'n cael ei gyflogi mewn un o'r swyddi sydd wedi'u rhestru yn cael ei anghymhwysu rhag bod yn Gomisiynydd.

Paragraph 4 – Remuneration, allowances and pensions

315. This paragraph allows the Welsh Ministers to pay remuneration, allowances, gratuities and pensions to the Commissioner, and amounts for or towards the pensions of persons who have been Commissioner.

Paragraph 5 – Terms of appointment

316. This paragraph ensures that the Commissioner holds office subject to the terms of his or her appointment, subject to the other provisions of Schedule 1. Sub-paragraph (3) requires the terms of the Commissioner's appointment to provide for the Commissioner to hold office on a full-time basis.

Paragraph 6 – Duration of appointment

317. This paragraph provides that a person appointed as Commissioner holds office for a period of 7 years subject to the provisions in Part 3 of Schedule 1 which deal with disqualification, and the Commissioner's resignation or dismissal from office.

Paragraph 7 – Appointment regulations

318. This paragraph requires the Welsh Ministers to make provision about the appointment of the Commissioner by regulations ("appointment regulations").

Paragraph 8 – Delegation of appointment functions etc

319. This paragraph provides the First Minister with the power, by order, to delegate the function of appointing the Commissioner and any or all of his or her functions that relate to the Commissioner to the Welsh Ministers.

Paragraph 9 – Resignation

320. This paragraph allows the Commissioner to resign his or her post by giving written notice to the First Minister of not less than 3 months.

Paragraph 10 – Disqualification

321. A person ceases to be Commissioner if the person is disqualified from being Commissioner on grounds of employment.

Paragraph 11 – Dismissal

322. This paragraph provides the First Minister with the power to dismiss the Commissioner in certain circumstances.

Paragraph 12 – Payments on ceasing to hold office

323. This paragraph provides the Welsh Ministers with the discretion to make compensatory payment to a person who ceases to hold the office of Commissioner.

Paragraph 13 – Disqualification from being Commissioner

324. This paragraph provides that a person employed in one of the listed offices is disqualified from being Commissioner.

Paragraff 14 - Taliadau gan Weinidogion Cymru

325. Mae'r paragraff hwn yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer penodol i ariannu'r Comisiynydd.

Paragraff 15 - Blwyddyn ariannol

326. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch blwyddyn ariannol y Comisiynydd.

Paragraff 16 - Swyddog cyfrifyddu

327. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifoldebau'r Comisiynydd fel y swyddog cyfrifyddu ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd.

328. Mae is-baragraff (5) yn rhoi pŵer i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gymryd tystiolaeth, os bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ("y Pwyllgor Seneddol") yn gofyn iddo wneud hynny, gan y Comisiynydd ar ei ran a chyflwyno adroddiad ynghylch y dystiolaeth a chyfleu'r dystiolaeth i'r Pwyllgor Seneddol.

Paragraff 17 - Amcangyfrifon

329. Mae'r paragraff hwn yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer pob blwyddyn ariannol heblaw'r un gyntaf, gan gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru, yn eu tro, archwilio'r amcangyfrif a gyflwynir iddyn nhw a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paragraff 18 - Cyfrifon

330. Mae'r paragraff hwn yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gadw cofnodion cyfrifyddu priodol, gan baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi, gyda chydysniad y Trysorlys, gan Weinidogion Cymru.

Paragraff 19 - Archwilio

331. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno'r cyfrifon a fydd yn cael eu paratoi ar gyfer blwyddyn ariannol i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

332. Mae'r paragraff hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio ac ardystio pob set o gyfrifon a fydd yn cael ei chyflwyno iddo, cyflwyno adroddiad arnyn nhw a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paragraff 20 - Archwilio'r defnydd o adnoddau

333. Mae'r paragraff hwn yn darparu y caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. Wrth gynnal archwiliadau o dan y paragraff hwn, does gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddim hawl i amau rhagoriaethau amcanion polisi'r Comisiynydd.

Paragraph 14 – Payments by the Welsh Ministers

325. This paragraph provides the Welsh Ministers with an express power to fund the Commissioner.

Paragraph 15 – Financial year

326. This paragraph makes provision about the Commissioner's financial year.

Paragraph 16 – Accounting officer

327. This paragraph makes provision about the Commissioner's responsibilities as accounting officer for the office of the Commissioner.

328. Subparagraph (5) provides the Public Accounts Committee of the National Assembly for Wales with the power, if requested to do so by the Committee of Public Accounts of the House of Commons ("the Parliamentary Committee"), to take evidence from the Commissioner on its behalf and to report on, and transmit, the evidence taken to the Parliamentary Committee.

Paragraph 17 – Estimates

329. This paragraph places a duty upon the Commissioner to prepare an estimate of the income and expenses of the Commissioner's office for each financial year other than the first, and submit the estimate to the Welsh Ministers. The Welsh Ministers, in turn, must examine the estimate submitted to them and lay that estimate before the National Assembly for Wales.

Paragraph 18 – Accounts

330. This paragraph places a duty upon the Commissioner to keep proper accounting records, and prepare accounts in respect of each financial year in accordance with directions given, with the consent of the Treasury, by the Welsh Ministers.

Paragraph 19 – Audit

331. This paragraph requires the Commissioner to submit the accounts prepared for a financial year to the Auditor General for Wales.

332. The paragraph also requires the Auditor General for Wales to examine, certify and report on each set of accounts submitted to him and lay them before the National Assembly for Wales.

Paragraph 20 – Examinations into the use of resources

333. This paragraph provides that the Auditor General for Wales may carry out examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which resources have been used in discharging the Commissioner's functions. In carrying out examinations under this paragraph, the Auditor General for Wales is not entitled to question the merits of the policy objectives of the Commissioner.

Paragraff 21 - Dehongli

334. Mae'r paragraff hwn yn diffinio "rheoliadau penodi" a "panel dethol" at ddibenion yr Atodlen hon.

Atodlen 2 - Ymholiadau gan y Comisiynydd

335. Mae Atodlen 2 yn cael ei chyflwyno gan adran 7 o'r Mesur ac mae'n gwneud darpariaeth atodol ynghylch pwerau'r Comisiynydd i ymholi.

Paragraff 1 - Cyflwyniad

336. Mae Atodlen 2 yn gymwys i ymholiadau y caiff y Comisiynydd eu cynnal o dan adran 7.

Paragraff 2 i 5 - Cylch gorchwyl

337. Cyn cynnal ymholiad, rhaid i'r Comisiynydd baratoi ei gylch gorchwyl.

338. Yn unol â pharagraff 3, pan fo'r cylch gorchwyl yn cyfeirio at berson penodol neu at gategori penodol o berson, rhaid i'r cylch gorchwyl hwnnw bennu'r person hwnnw neu'r categori hwnnw o berson. Mae person sy'n cael ei bennu yng nghylch gorchwyl ymholiad a phob person sydd, ym marn y Comisiynydd, yn syrthio o fewn categori o bersonau sy'n cael ei bennu yng nghylch gorchwyl ymholiad, wedi'u diffinio at ddibenion paragraff 3 fel "person perthnasol".

339. Cyn setlo'r cylch gorchwyl o dan baragraff 3, rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad i bob person perthnasol ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig a chyfle i gyflwyno sylwadau am y cylch gorchwyl hwnnw. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno gan y person perthnasol.

340. Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd ei gyhoeddi yn unol â'r gofyniad sy'n cael ei osod gan baragraff 3 yn ogystal â rhoi hysbysiad ynghylch y cylch gorchwyl i bob person perthnasol ac i Weinidogion Cymru.

341. Pan nad yw'r cylch gorchwyl yn ymwneud â pherson penodol neu gategori penodol o berson, mae paragraff 4 yn darparu bod rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi'r cylch gorchwyl yn unol â'r gofyniad sy'n cael ei osod gan baragraff 4(2)(a) yn ogystal â rhoi hysbysiad ynghylch y cylch gorchwyl i Weinidogion Cymru.

342. Mae paragraff 5 yn darparu bod paragraff 3 neu 4 yn gymwys i newidiadau yn y cylch gorchwyl fel y byddai'r paragraff yn gymwys wrth baratoi'r cylch gorchwyl hwnnw.

Paragraffau 6 a 7 - Sylwadau

343. Yn unol â pharagraff 6(1), rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau i roi cyfle i bersonau gyflwyno sylwadau mewn perthynas ag ymholiadau.

344. Mae paragraff 6(2) yn darparu bod rhaid i'r trefniadau hyn roi cyfle i'r personau sydd wedi'u rhestru gyflwyno sylwadau yn ystod ymholiad.

345. Mae paragraff 7(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ystyried sylwadau sy'n cael eu cyflwyno mewn perthynas ag ymholiad gan y personau sydd wedi'u rhestru.

Paragraph 21 – Interpretation

334. This paragraph defines “appointment regulations” and “selection panel” for the purposes of this Schedule.

Schedule 2 – Inquiries by the Commissioner

335. Schedule 2 is introduced by section 7 of the Measure and makes supplemental provision about the Commissioner’s powers of inquiry.

Paragraph 1 – Introduction

336. Schedule 2 applies to inquiries that the Commissioner may undertake under section 7.

Paragraph 2 to 5 – Terms of reference

337. Before conducting an inquiry, the Commissioner must prepare its terms of reference.
338. In accordance with paragraph 3, where the terms of reference relate to a particular person or category of person, those terms of reference must specify that person or category of person. A person specified in terms of reference of an inquiry and each person who, in the Commissioner’s view, falls within a category of persons specified in terms of reference of an inquiry, are defined for the purposes of paragraph 3 as a “relevant person”.
339. Before settling the terms of reference under paragraph 3, the Commissioner must give each relevant person notice of the proposed terms and an opportunity to make representations about those terms. The Commissioner must consider any representations made by the relevant person.
340. After settling the terms of reference, the Commissioner must publish the terms of reference in accordance with the requirement imposed by paragraph 3 as well as give notice of the terms of reference to each relevant person and the Welsh Ministers.
341. Where the terms of reference do not relate to a particular person or category of person, paragraph 4 provides that the Commissioner must publish the terms of reference in accordance with the requirement imposed by paragraph 4(2)(a) as well as give notice of the terms of reference to the Welsh Ministers.
342. Paragraph 5 provides that paragraph 3 or 4 applies to changes in the terms of reference as the paragraph would apply to the preparation of those terms.

Paragraphs 6 and 7 – Representations

343. In accordance with paragraph 6(1), the Commissioner must make arrangements for giving persons an opportunity to make representations in relation to inquiries.
344. Paragraph 6(2) provides that these arrangements must give the listed persons an opportunity to make representations in the course of an inquiry.
345. Paragraph 7(1) requires the Commissioner to consider representations made in relation to an inquiry by the persons listed.

346. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau sy'n cael eu cyflwyno gan unrhyw berson arall mewn perthynas ag ymholiad, oni bai bod y Comisiynydd yn credu ei bod yn briodol gwrthod gwneud hynny. Pan fo'r Comisiynydd yn gwrthod ystyried sylwadau, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person a gyflwynodd y sylwadau ynghylch y penderfyniad i wrthod ystyried y sylwadau a gafodd eu cyflwyno yn ogystal â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Paragraff 8 - Adroddiadau ar ymholiadau

347. Rhaid i'r Comisiynydd baratoi adroddiad ar ei ganfyddiadau ynghylch unrhyw ymholiad ac anfon drafft o'r adroddiad at Weinidogion Cymru, sef drafft y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â gofynion is-baragraff (2). Os yw'r cylch gorchwyl yn pennu person penodol neu gategori penodol o berson, rhaid hefyd i'r Comisiynydd anfon drafft o'r adroddiad at bob person perthnasol (fel y maen nhw wedi'u diffinio gan baragraff 3(5)).
348. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd roi cyfle i Weinidogion Cymru, ac i unrhyw berson arall y mae drafft o adroddiad yn cael ei anfon ato, i gyflwyno sylwadau ynghylch yr adroddiad. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno ynghylch y drafft ac, ar ôl setlo'r adroddiad, ei gyhoeddi.

Atodlen 3 - Diwygiadau ynglŷn â gweithio ar y cyd a gweithio'n gyfochrog

349. Mae Atodlen 3 yn cael ei chyflwyno gan adran 21 yn Rhan 2 o'r Mesur.
350. Mae'r Atodlen hon yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Safonau Gofal 2000, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, a Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, er mwyn gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch comisiynwyr ac ombwdsmyr eraill yn gweithio ar y cyd a gweithio'n gyfochrog â Chomisiynydd y Gymraeg.

Atodlen 4 - Aelodau'r Panel Cyngori

351. Mae Atodlen 4 yn cael ei chyflwyno gan adran 23 o'r Mesur ac mae'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch penodi aelodau'r Panel Cyngori, yn ogystal â materion ariannol perthynol.

Paragraff 1 - Penodi

352. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rheoliadau penodi (sy'n cael eu diffinio ym mharagraff 5) sy'n cael eu gwneud ganddyn nhw. Mae Gweinidogion Cymru yn cael eu hatal rhag penodi person yn aelod o'r Panel Cyngori os yw'r person wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod ar sail cyflogaeth. Mae'r seiliau hyn yn cael eu darparu ym mharagraff 10.

Paragraff 2 - Tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau

353. Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth, lwfansau, arian rhodd a phensiynau i aelodau'r Panel Cyngori, a symiau ar gyfer pensiynau neu tuag at bensiynau personau sydd wedi bod yn aelodau.

346. The Commissioner must consider representations made by any other person in relation to an inquiry, unless the Commissioner thinks that it is appropriate to refuse to do so. Where the Commissioner refuses to consider representations he or she must give written notice to the person who made the representation of the decision to refuse to consider the representation made as well as the reasons for that decision.

Paragraph 8 – Reports on inquiries

347. The Commissioner must prepare a report of his or her findings on any inquiry and send a draft of the report to the Welsh Ministers, which must comply with the requirements of subparagraph (2). If the terms of reference specify a particular person or category of person, the Commissioner must also send a draft of the report to each relevant person (as defined by paragraph 3(5)).
348. The Commissioner is required to give the Welsh Ministers, and any other person to whom a draft of a report is sent, an opportunity to make representations about the report. The Commissioner must consider any representations made on the draft report and, having settled the report, must publish it.

Schedule 3 – Amendments about joint and collaborative working

349. Schedule 3 is introduced by section 21 in Part 2 of the Measure.
350. This Schedule makes amendments to the Care Standards Act 2000, Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005, and the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006 to make further provision about other commissioners and ombudsmen working jointly and collaboratively with the Welsh language Commissioner.

Schedule 4 – Members of the Advisory Panel

351. Schedule 4 is introduced by section 23 of the Measure and makes further provision about the appointment of the Advisory Panel's members, as well as associated financial matters.

Paragraph 1 – Appointment

352. This paragraph requires the Welsh Ministers to comply with appointment regulations (defined in paragraph 5) made by them. The Welsh Ministers are prevented from appointing a person to be a member of the Advisory Panel if that person is disqualified from appointment on grounds of employment. Those grounds are provided in paragraph 10.

Paragraph 2 – Remuneration, allowances and pensions

353. This paragraph allows the Welsh Ministers to pay remuneration, allowances, gratuities and pensions to members of the Advisory Panel, and amounts for or towards the pensions of persons who have been members.

Paragraff 3 - Telerau penodi

354. Mae aelod o'r Panel Cyngori yn dal ei swydd yn unol â'i delerau penodi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yr Atodlen hon.

Paragraff 4 - Cyfnod y penodiad

355. Mae'r paragraff hwn yn darparu bod person sy'n cael ei benodi'n aelod o'r Panel Cyngori yn dal ei swydd am gyfnod o dair blynedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 2 o Atodlen 4 sy'n ymdrin ag anghymhwysu, ymddiswyddiad neu ddiswyddo aelodau.

Paragraff 5 - Rheoliadau penodi

356. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau ynghylch penodi aelodau'r Panel Cyngori drwy reoliadau ("rheoliadau penodi").

Paragraff 6 - Ymddiswyddo

357. Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i aelod o'r Panel Cyngori ymddiswyddo.

Paragraff 7 - Anghymhwysu rhag bod yn aelod

358. Mae person yn peidio â bod yn aelod o'r Panel Cyngori os yw wedi'i anghymhwysu rhag bod yn aelod ar sail cyflogaeth (sy'n cael ei ddiffinio ym mharagraff 10).

Paragraff 8 - Diswyddo

359. Mae'r paragraff hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiswyddo aelod o'r Panel Cyngori o dan amgylchiadau penodol. Cyn arfer eu pŵer i ddiswyddo, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd.

Paragraff 9 - Taliadau pan fo rhywun yn peidio â dal swydd

360. Mae'r paragraff hwn yn rhoi'r disgrisiwn i Weinidogion Cymru i dalu iawndal i berson sy'n peidio â bod yn aelod o'r Panel Cyngori.

Paragraff 10 - Anghymhwysu ar sail cyflogaeth

361. Mae'r paragraff hwn yn darparu bod person sy'n cael ei gyflogi mewn un o'r swyddi sydd wedi'u rhestru yn cael ei anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r Panel Cyngori ar sail cyflogaeth.

Paragraff 11 - Dehongli

362. Mae'r paragraff hwn yn diffinio "rheoliadau penodi" at ddibenion yr Atodlen hon.

Atodlen 5 - Y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 6

363. Mae Atodlen 5 yn cael ei chyflwyno gan adran 33 o'r Mesur. Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ychwanegu'r personau neu'r categorïau o berson sydd wedi'i rhestru yng ngholofn (2) at y tabl yn Atodlen 6 (Cyrff cyhoeddus etc: safonau) fel bod y personau hynny yn agored i orfod cydymffurfio â safonau.

364. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, gynyddu'r trothwy ariannol y cyfeirir ato yng nghofnod (5) o'r tabl (personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn arian cyhoeddus) drwy ddisodli'r swm perthnasol ag unrhyw swm arall nad yw'n llai na £400,000.

Paragraph 3 – Terms of appointment

354. A member of the Advisory Panel holds office subject to the terms of his or her appointment, subject to the other provisions of this Schedule.

Paragraph 4 – Duration of appointment

355. This paragraph provides that a person appointed as a member of the Advisory Panel holds office for a period of 3 years, subject to the provisions in Part 2 of Schedule 4 which deal with disqualification, resignation or dismissal of members.

Paragraph 5 – Appointment regulations

356. The Welsh Ministers must make provision about the appointment of members of the Advisory Panel by regulations (“appointment regulations”).

Paragraph 6 – Resignation

357. This paragraph allows a member of the Advisory Panel to resign from office.

Paragraph 7 – Disqualification from membership

358. A person ceases to be a member of the Advisory Panel if disqualified from membership on grounds of employment (defined in paragraph 10).

Paragraph 8 – Dismissal

359. This paragraph provides the Welsh Ministers with the power to dismiss a member of the Advisory Panel in certain circumstances. Before exercising their power of dismissal, the Welsh Ministers must consult the Commissioner.

Paragraph 9 – Payments on ceasing to hold office

360. This paragraph provides the Welsh Ministers with the discretion to make a compensatory payment to a person who ceases to be a member of the Advisory Panel.

Paragraph 10 – Disqualification on grounds of employment

361. This paragraph provides that a person employed in one of the listed offices is disqualified from membership of the Advisory Panel on grounds of employment.

Paragraph 11 – Interpretation

362. This paragraph defines “appointment regulations” for the purposes of this Schedule.

Schedule 5 – Categories of Persons that may be added to Schedule 6

363. Schedule 5 is introduced by section 33 of the Measure. The Welsh Ministers may make an order adding the persons or categories of persons listed in column (2) to the table in Schedule 6 (Public bodies etc: standards) so that those persons become capable of being required to comply with standards.

364. The Welsh Ministers may, by order, amend the monetary threshold referred to in entry (5) of the table (persons providing services to the public who receive public money) by replacing the relevant amount with any other amount that is not less than £400,000.

365. Mae'r Atodlen hon yn diffinio "cydsyniad" at ddibenion cofnod (8) personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6) yn y tabl, ac mae'n datgan y caniateir i gydsyniad gael ei dynnu'n ôl, yn dibynnu ar gytundeb Gweinidogion Cymru.
366. Mae diffiniadau o "deddfiad", "awdurdod cyhoeddus" ac "arian cyhoeddus" hefyd yn cael eu darparu at ddibenion yr Atodlen hon.

Atodlen 6 - Cyrff cyhoeddus etc: safonau

367. Mae safonau yn cael eu diffinio yn Mhennod 2 o Ran 4 o'r Mesur.
368. Mae Atodlen 6 yn cael ei chyflwyno gan adran 33 o'r Mesur. Mae'r personau neu'r categorïau o bersonau sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (1) o'r tabl yn agored i orfod cydymffurfio â'r dosbarthiadau o safon sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (2) yn y tabl. Nid ydynt o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safon neu safonau nes bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio iddyn nhw o dan adran 45 yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw wneud hynny.
369. O dan adran 35 caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n diwygio Atodlen 6 drwy wneud y canlynol:
- ychwanegu at golofn (1) berson neu gategorïau o bersonau o'r tabl yn Atodlen 5 (y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 6);
 - tynnu person neu gategori o berson o golofn (1);
 - gwneud diwygiadau eraill yn unol ag adran 35.
370. O dan adran 38 caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio colofn (2) fel ei bod yn cynnwys neu'n tynnu cyfeiriadau at un neu ragor o'r dosbarthiadau canlynol o safon: safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau cadw cofnodion.
371. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio colofn (2) yn y tabl i beri bod Gweinidogion Cymru, cyngor bwrdeistref sirol, cyngor sir neu awdurdod parc cenedlaethol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau hybu.
372. O blith y personau a'r categorïau sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (1), nid yw'r cofnod yn y tabl sy'n ymwneud ag adrannau'r llywodraeth yn cynnwys dim byd sydd o fewn y cofnod sy'n ymwneud â Gweinidogion y Goron, ac nid yw'r cofnod sy'n ymwneud â phersonau sy'n arfer swyddogaethau'r Goron ddim yn cynnwys unrhyw berson o fewn cofnod arall.
373. Mae diffiniadau hefyd yn cael eu darparu at ddibenion yr Atodlen hon.

Atodlen 7 - Y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 8

374. Mae Atodlen 7 yn cael ei chyflwyno gan adran 33 o'r Mesur. Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ychwanegu'r categori o bersonau sy'n cael eu disgrifio yng ngholofn (2) at y tabl yn Atodlen 8 (Cyrff eraill: Safonau) fel bod y personau hynny yn agored i orfod cydymffurfio â safonau ynglŷn â chyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion, fel y darperir ar eu cyfer yn adran 37.

365. This Schedule defines “consent” for the purpose of entry (8) (persons who consent to being specified in Schedule 6) in the table, and states that consent may be withdrawn subject to the agreement of Welsh Ministers.
366. Definitions of “enactment”, “public authority” and “public money” are also provided for the purposes of this Schedule.

Schedule 6 - Public bodies etc: standards

367. Standards are defined in Chapter 2 of Part 4 of the Measure.
368. Schedule 6 is introduced by section 33 of the Measure. The persons or category of persons listed in column (1) of the table are capable of being required to comply with the classes of standards listed within column (2) of the table. They are not under a duty to comply with a standard or standards until the Commissioner has issued them with a compliance notice under section 45 requiring them to do so.
369. Under section 35 the Welsh Ministers may make an order amending Schedule 6 by:
